# tafod elái

GORFFENNAF 2023

Rhif 379

Pris £1


## Cyhoeddi'r Eisteddfod



Dydd Sadwrn olaf mis Mehefin daeth tyrfa i Aberdâr i Seremoni Gyhoeddi Eisteddfod 2024. Gorymdeithiodd yr Orsedd a llu o gynrychiolwyr yr ardal drwy'r dref a derbyn croeso arbennig gan drigolion lleol. Yna ar faes athletau eang Stadiwm Ron Jones yng nghwm Cynon cynhaliwyd Seremoni'r Croeso.





Cyflwynwyd y copi cyntaf o Restr Testunau'r Eisteddfod i'r Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd gan Helen Prosser, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, a chafwyd nifer o ddatganiadau ar lafar ac ar gân. Cyflwynwyd y Corn Hirlas a'r Flodeuged ac roedd yn gyfle i fwynhau'r Ddawns Flodau. Braf oedd gweld cymaint o gynrychiolwyr ysgolion a mudiadau Taf-Elái yn cymryd rhan yn yr orymdaith a'r Seremoni.

Mewn araith rymus gan yr Archdderwydd diolchodd am y croeso arbennig ac am yr angen i sicrhau twf addysg Gymraeg yn y Sir.






**GOLYGYDD**
**Penri Williams**
**029 20890040**

**CYHOEDDUSRWYDD**
**Colin Williams**
**029 20890979**

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Medi
i gyrraedd erbyn
30 Gorffennaf 2023

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
*www.evanprint.co.uk*

CYMRAEG
*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**



# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Gohebydd y mis: Dafydd Roberts**

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Enfys White ar ei llwyddiant yn Adran Gwaith Cartref yr Urdd eleni. Mae hi'n ddisgybl ym mlwyddyn 4 yn ysgol Llanhari. Dyluniodd Enfys ap i flwyddyn 6 ac iau, sef gêm gyfrifiadurol. Da iawn ti Enfys.



**Pob Lwc Ym Mhencampwriaeth y Byd**
Pob lwc i chwe chwaraewr rygbi cyffwrdd ifanc o'r ardal fydd yn cynrychioli Cymru ddiwedd Gorffennaf, yn un o brif bencampwriaethau'r byd. Mi fydd Tomos Prys Evans, Jacob Dalton, Osian Ayres ac Ifan Roberts yn cynrychioli eu gwlad yn y tîm i chwaraewyr o dan bymtheg, ac mi fydd Ioan Ayres ac Owen Porter yn y tîm o dan ddeunaw. Mae'r bechgyn o ardal Llantrisant a Phontyclun ac wedi eu dewis ar gyfer y garfan derfynol yn dilyn nifer o sesiynau gyda hyfforddwyr Cymru. Mae'r bencampwriaeth yn cael ei chynnal yn Nottingham, ac yn cynnwys timau gwledydd hemisffer y gogledd yn cynnwys Lloegr, Yr Alban, Ynysoedd y Cayman a Tseina. Pob lwc i'r chwech ac i Gymru.

**Merched y Wawr Tonysguboriau**
Cawsom noson ddifyr iawn yn ein cyfarfod olaf. Daeth Rhian Jones sy'n Rheolwr Lleoliad yng Nghanolfan Taliesin ym Mhrifysgol Abertawe i'n diddanu! Mae Rhian wedi bod yn ymwneud â sawl maes fel gyrfa a chawsom sawl hanesyn diddorol a doniol iawn ganddi. Roedd ambell dro trwstan yn wahanol iawn hefyd a'r hanesyn am fŵts Ted yn dod â deigryn i'r llygaid. Gwych Rhian a diolch hefyd i Miss Catrin Rowlands oedd yn cadw trefn ar Rhian!

Bydd ein cyfarfod nesaf yng ngerddi Sŵn y Coed ar y 29ain o Orffennaf.

**Pwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol 2024**
Ddiwedd Mehefin cynhaliwyd cyfarfod cyntaf ardal Llantrisant a Phontyclun i sefydlu pwyllgor apêl ar gyfer Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024 yng nghlwb rygbi Pontyclun. Y gobaith yw cael llawer o hwyl wrth godi arian dros y misoedd nesaf. Os hoffech ragor o wybodaeth ewch i wefan yr Eisteddfod. Byddwn hefyd yn hysbysebu ein gweithgareddau ar facebook. Cewch ragor o fanylion fis nesaf!

**Côr Tadau Trisant Yn Nhŷ Ddewi**
Nos Sadwrn, Mehefin 17eg, cynhaliwyd cyngerdd arbennig yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi gyda chôr Tadau Trisant. Trefnwyd y noson gan griw lleol y Penknife club sy'n trefnu digwyddiadau elusennol yn ardal Tŷ Ddewi. Rhannwyd yr elw rhwng elusen 2 Wish ac elusen yn Sir Benfro. Teithiodd dros bedwardeg aelod o'r côr i gymryd rhan yn y lleoliad arbennig. Unawdwyr y noson oedd Peter Horton a Siôn Owen, ac ymunodd y ddau gyda'r côr i ganu Anfonaf Angel fel diweddglo.



# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Helen Gronw, Maes y Sarn a'r teulu wedi iddi golli ei mam, a oedd yn byw yn Llandysul, fis d'wetha.

**Gemau Stryd yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Ella Froud-Powell, Heol Gam, ar ei llwyddiant yng nghystadleuaeth ddringo Gemau Stryd yr Urdd lawr yn y Bae. Cafodd Plas Roald Dahl ei drawsnewid i fod yn arena o weithgareddau stryd a'r bwrlwm a'r brwdfrydedd yn arwydd o'r mwynhad a gafwyd wrth hybu chwaraeon newydd a thrwy hynny ysbrydoli aelodau'r Urdd i roi cynnig ar gampau gwahanol.

**Gerddi**
Diolch i Bwyllgor Gerddi Pentyrch sydd wedi bod yn brysur iawn yn paratoi'r potiau blodau lliwgar sydd wedi ymddangos o gwmpas y pentre. Bydd penwythnos y Gerddi Agored ar Orffennaf 1af a'r 2ail.

**Y Rotary**
Cynhaliwyd noson ddiddorol yn y Clwb Rygbi dan nawdd y Rotary yn ddiweddar. Arfon Haines-Davies oedd y gŵr gwadd a bu'n hel atgofion ac yn sôn am ei fagwraeth fel mab y mans mewn gwahanol rannau o Gymru ac am ei gyfnod fel darlledwr gyda HTV. Llwyddwyd i godi swm sylweddol tuag at Ysbyty Felindre.

**Sara Pickard**
Unwaith eto mae'n rhaid llongyfarch Sara ar ei llwyddiant wrth iddi barhau i fod yn ysbrydoliaeth i ni gyd.

Falle welsoch chi Sara Pickard ar raglen ITV Cymru 'Sharp End' yn ddiweddar. (Mae modd ail-weld y rhaglen wrth fynd i wefan ITV Cymru a chwilio am y dyddiad 19.6.23).

Mae Sara'n ffodus iawn i gael secondiad am fis i weithio gydag ITV Cymru. Fe fydd hi'n ffilmio a chyflwyno eitemau am faterion yn ymwneud ag anabledd. 'Sharp End' oedd y rhaglen gynta iddi weithio (a chyd-gyflwyno!) arni - i gyd-fynd ag wythnos Anabledd Dysgu. Roedd hefyd yn dathlu 40 mlynedd ers cychwyn yr 'All Wales Strategy' sef cynllun i wella amgylchiadau pobl ag anabledd a cheisio dod i ben â'r arfer ohonynt yn byw mewn sefydliadau ar wahân i'r boblogaeth yn gyffredinol.




Dydd Llun gwych yn y swyddfa wrth i Sara Pickard gael y cyfle i gyd gyflwyno rhan o raglen Sharp End gyda Rob Osborne.

Mae hefyd yn mynd i'r Sioe yn Llanelwedd ac i'r Eisteddfod ym Moduan. Cofiwch alw mewn i safle ITV Cymru i ddweud helo!

Dwedodd Shan, ei mam, ei fod yn brofiad mae Sara yn edrych ymlaen ato yn fawr iawn. Fel cyflwyniad i fyd y cyfryngau cafodd hi a'i rheolwr eu gwahodd i ddiwrnod agored ITV yn Llundain ar yr 20fed i gyfarfod â sêr y sianel yn Westminster.



Allwch chi enwi'r pwysigion oedd gyda Sara yn Llundain?

**Eisteddfod yr Urdd**
Cafodd sawl Nain, Taid, Mam-gu a Thad-cu o Bentyrch bleser mawr wrth weld eu hwyrion a'u hwyresau yn llwyddo yn y gwahanol gystadlaethau wrth ganu neu ddawnsio, llefaru, stepio neu chwarae offeryn yn Llanymddyfri. Yn eu plith roedd Erin Jardine a ddaeth yn ail ar y Delyn a'i brawd Osian a ddaeth yn ail ar y trwmped. Llongyfarchiadau iddynt i gyd. Pob lwc i bawb ym Maldwyn yn 2024!

## Clwb Rygbi Pentyrch

Ar ôl y llwyddiant ar y cae dros y gaeaf pan lwyddodd y tîm 1af i ennill dyrchafiad am y tymor nesa, daeth y cyfnod traddodiadol i gyflwyno tlysau i chwaraewyr gore'r ymgyrch . Chwaraewr y Flwyddyn i'r tîm 1af oedd Ben Jones; Mikey Owen oedd dewis y cefnogwyr; Adam Conway gafodd dlws ei gyd-chwaraewyr a Ben Williams am y gwelliant mwyaf yn ei chware. Siôn Davies enillodd Dlws Chwaraewr y Tymor y tîm Ieuenctid.

Yna ar ddydd Sul canol Mehefin roedd y clwb dan ei sang ar gyfer diwrnod o weithgareddau a chyflwyno tlysau'r Mini ac Ifanc - yn rhy niferus i'w rhestru! Ond - uchafbwynt i'r diwrnod oedd cael cwmni tri chwaraewr a ddaeth drwy'r rhengoedd ar Barc y Dwrlyn ac sydd wedi mynd mhlân i gynrychioli Cymru ar wahanol lefelau - a hwythe'n cyflwyno eu crysau rhyngwladol i'r clwb - Jac Davies dan 20 oed, Elijah Evans dan 18, a Seb Davies sydd wedi ennill 16 o gapiau dros y prif dîm. Llongyfarchiadau mawr a diolch i'r tri.




Jac, Elijah a Seb

A daeth un cyflwyniad arall i un sydd yn - ac wedi rhoi gwasanaeth arbennig i'r clwb - Steve Cook - trefnydd hynod brysur y Clwb 200 ar hyn o bryd. Er mawr syndod iddo fe, cyflwynwyd cartŵn gwych iddo ar achlysur ei ymddeoliad ar ôl 20 mlynedd yn trefnu a hyfforddi gyda'r Ieuenctid. Diolch Cookie am yr holl waith.




# EFAIL ISAF

*Gohebydd Lleol:*
*Loreen Williams*

**Brysiwch Wella**
Da deall fod Mike West, Parc Nant Celyn a Pat Edmunds, Penywaun yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

**Swydd Newydd**
Rwy'n ymddiheuro am fod cyhyd yn cofnodi'r ffaith fod Ffion Porter, Heol y Ffynnon wedi ei phenodi'n Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Gymraeg Llanhari. Bu Ffion yn aelod o staff Ysgol Gymraeg Garth Olwg cyn symud i Lanhari ddechrau'r flwyddyn. Llongyfarchiadau gwresog iawn i chi, Ffion.

**Sengl Newydd Huw**
Llongyfarchiadau i Huw Griffiths, Parc Nant Celyn sydd newydd ryddhau ei sengl newydd o'r enw "Clancy". Dechreuodd Huw gyfansoddi caneuon yn ifanc iawn gan recordio ar ei ben ei hun. Erbyn hyn mae ganddo fand o'r enw "Dail" i'w gefnogi i greu sain lawnach ar gyfer perfformio mewn gigs. Daw Huw o deulu cerddorol iawn, ac Elen, ei chwaer sydd yn chwarae'r allweddellau yn y band. Mae gan Huw, sy'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, ddiddordeb mewn cerddoriaeth glasurol ac mae'n canu'r ffidil yng Ngherddorfa Symffoni Prifysgol Caerdydd a Cherddorfa Sir Rhondda Cynon Taf. Pob hwyl iti Huw gyda'r sengl newydd.




**Cefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol**
Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf lleol i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf 2024 yn y Carpenters Arms nos Iau, Mehefin 22ain. Daeth nifer reit dda o bentrefi Efail Isaf, Pentre'r Eglwys a Thonteg ynghyd i ddechrau ar y dasg o godi arian i gefnogi'r Eisteddfod. Etholwyd Lyn West yn Gadeirydd, Catrin Roberts yn Ysgrifennydd a Geraint Rees yn Drysorydd. Trafodwyd amrywiaeth o weithgareddau i godi'r swm o £17,000, megis taith feiciau, dringo tri chopa, nosweithiau cerddorol a sioe ffasiwn. Yn flaenllaw ar y rhestr o syniadau oedd Ocsiwn Addewidion a gobeithir trefnu noson yn gynnar yn nhymor yr Hydref. Bydd cyfle i gyfarfod i ganu yn y Carpenters ar ôl Ffair y pentref a gynhelir ar ddydd Sadwrn, Medi 9fed.

Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor yn y Carpenters nos Iau, Gorffennaf 20fed am 7 o'r gloch.

**Croeso Adref Gwenno, a Ffarwel Gwenno!**
Croeso adre i Gwenno, merch Geraint a Caroline Rees sydd wedi treulio cyfnod ar Gyfandir Affrica. Bu Gwenno'n athrawes yn Ysgol Mwanza yn Tanzania am ymron i dair blynedd. Cyfnod byr o'i chwmni y cawn ni yn yr Efail Isaf gan ei bod yn codi ei phac eto ac yn mynd i ddysgu yn Ninas Mecsico gan ddechrau yno ganol Awst. Pob hwyl iti Gwenno. Byddwn yn awyddus i glywed dy hanes yn y swydd newydd.

**"Y Cinio Mawr"**
Bu'r "Cinio Mawr" yn Neuadd y Pentref ar ddydd Sul Mehefin 25ain yn llwyddiant ysgubol. Roedd y Neuadd yn llawn a phawb mewn hwyliau da. Roedd yn gyfle ardderchog i gymdeithasu gyda chymdogion a ffrindiau.

**Ffair y Pentre**
Cynhelir Ffair y Pentre ddydd Sadwrn, Medi 9fed. Bydd cyfle i gymdeithasu a chael cân neu ddwy gyda'r hwyr yn Y Carpenters. Cofiwch y dyddiad!

**Y Tabernacl**
**Cymanfa Ganu**
Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024 yn Y Tabernacl nos Sul, Mehefin 25ain yn dilyn Seremoni'r Cyhoeddi yn Aberdâr ar y Sadwrn. Daeth nifer dda o gantorion ynghyd a chafwyd canu grymus o dan arweiniad Eilir Owen Griffiths. Marc Jon Williams oedd yr organydd ac fe recordiwyd y canu ar gyfer y rhaglen deledu Dechrau Canu, Dechrau Canmol. Roedd yn braf cael cantorion Côr Godre'r Garth yn y Gymanfa i roi sail gadarn i'r canu. Fe groesawodd Helen Prosser, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod y gynulleidfa ar ddechrau'r noson ac fe ddiolchodd yn gynnes i bawb cyn i'r fendith gael ei gyhoeddi gan y Parch Eirian Rees.

**Parchus Arswydus Swydd!**
Llongyfarchiadau i Geraint Rees, Heol Iscoed ar gael ei ethol yn Drysorydd

# CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*
*colin.williams@talktalk.net*

**Crotesi Creigiau . . .**
. . . yn joio Te P'nawn! Jackie a Sylvia oedd wedi bod wrthi'n brysur yn coginio a pharatoi'r wledd! Edrych yn hyfryd o flasus Ferched! Pawb wedi mwynhau ddwedwn i!






Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Ein dymuniadau gorau iti, Geraint.

**Bore Coffi**
Cynhelir Bore Coffi bob bore Mawrth am hanner awr wedi 10 yng Nghanolfan y Tabernacl. Bydd croeso cynnes i aelodau'r Tabernacl a'r pentrefwyr i ddod i'r Bore Coffi. Cewch gyfle i gael paned o de neu goffi a bisgedi ac yn anad dim, cyfle i gymdeithasu a chael clonc.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Gorffennaf ac Awst**
Gorffennaf 2il Oedfa Gymun o dan ofal Emlyn ac Ann Davies
Gorffennaf 9fed Y Parchedig Aled Edwards
Gorffennaf 16eg Iwan Rowlands a Geraint Huws
Gorffennaf 23ain Y Parchedig Gethin Rhys
Gorffennaf 30ain Ymuno ag aelodau Bethlehem, Gwaelod y Garth.
Mis Awst
Awst 6ed Oedfa Gymun o dan ofal Geraint Rees
Awst 13eg Ymuno ag aelodau Bethlehem Gwaelod y Garth
Awst 20fed Y Parchedig Eirian Rees
Awst 27ain Ymuno ag aelodau Bethlehem Gwaelod y Garth

# Ysgol Tonyrefail

**Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024**
Daeth cynrychiolaeth o’r ysgol ynghyd i orymdeithio drwy strydoedd Aberdâr fel rhan o Ŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024. Braf oedd gweld y croeso a’r gefnogaeth yn y dref i’r ŵyl. Llongyfarchiadau a phob hwyl i Helen Prosser cyn-riant ac is-gadeirydd ein Bwrdd Llywodraethol ar gael ei hethol yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod.




Barod i orymdeithio yng Ngwyl Cyhoeddi Eisteddfod 2024




Gwynfor Dafydd cyn ddisgybl ac aelod o'r Orsedd



Helen Prosser gyda'r Archdderwydd Myrddin ap Dafydd

**Llangrannog**
Cafodd 33 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 amser wrth eu boddau ar gwrs preswyl yn Llangrannog yn ddiweddar. Roedd mawr edrych ymlaen wedi bod i gael dychwelyd i’r gwersyll am y tro cyntaf ers cyn y cyfnod clo. Manteisiwyd ar y



Mwynhau hufen ia ar y traeth yn Llangrannog

tywydd braf i gerdded llwybr yr arfordir i’r pentref a chael cyfle i fwynhau hufen iâ ar y traeth. Diolch yn fawr i’r athrawon – Miss Hughes, Mr Hughes, Mr Phillips a Miss Downes am edrych ar ôl y plant.



Braf Bod Nol!

**Clwb Cymraeg U3A**
Mae Ann Owen, sydd yn gyn-athrawes yn YGG Tonyrefail, yn cynnal Clwb Cymraeg yn yr ysgol i aelodau U3A. Mae cyfle iddynt ddod i sgwrsio ac ymarfer eu Cymraeg dros baned. Bydd y Criw Cymraeg yn helpu gyda’r gwersi hefyd. Byddwn yn cynnig mwy o gyfleoedd ym mis Medi i rieni a’r gymuned ddod i ymarfer eu Cymraeg.



Ann Owen arweinydd Clwb Cymraeg U3A

**Sŵ Plantasia**
Bu Blwyddyn 4 ar wibdaith i Sŵ Plantasia fel rhan o’u gwaith thema ar y fforestydd glaw trofannol. Roedd pawb wedi dysgu llawer am y planhigion a’r anifeiliaid sydd yn byw yn y cynefinoedd hyn.




Trip Blwyddyn 4 i Sw Plantasia

**Gwersi Diogelwch y Ffordd**
Mae plant Blwyddyn 2 wedi bod yn derbyn gwersi diogelwch y ffordd gan y cyngor. Maent wedi bod ar daith o amgylch yr ardal leol yn dysgu sut i groesi’r ffordd yn saff. Gwers bwysig iawn.



Blwyddyn 2 yn derbyn gwersi diogelwch y ffordd

**Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri**
Diolch i Isaac ac Eladie-Belle am gynrychioli’r ysgol ac am eu perfformiadau graenus yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri. Cafwyd llawer o hwyl ar y maes ac yn y ffair ar ôl y perfformiadau!

**Cynllun Trosglwyddo**
Fel rhan o gynllun trosglwyddo’r clwstwr - pleser oedd croesawu Mrs Thomas, Pennaeth Ysgol Llanhari i’r ysgol i siarad gyda Blwyddyn 5. Cafodd y plant a’u rhieni gyfle hefyd i fynd i ymweld ag Ysgol Llanhari.

**Ymweliad Chweched Dosbarth Ysgol Llanhari**
Diolch i ddisgyblion y Chweched Ysgol Llanhari a ddaeth i gynnal gweithdai gyda phlant Blwyddyn 4 yn ddiweddar. Roedd disgyblion Blwyddyn 4 wrth eu boddau gyda’r gwahanol weithgareddau ac maent yn gobeithio am ymweliad arall yn fuan!



Bl4 yn mwynhau cyd weithio gyda disgyblion Chweched Ysgol Llanhari.

# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi'r dramodydd, Ian Rowlands, golygydd a chyfrannwr at y gyfrol, *Llwyfannu'r Genedl Anghyflawn*.**



**Beth yw eich gwaith?**
Wy wastad wedi bod yn wneuthurwr llawrydd. Fe gychwynnais i fel actor ond ro'n i'n ddiamynedd ac yn casáu disgwyl i'r ffôn ganu felly fe ffurfiais i ychydig o gwmnïau theatr. Trwy'r rheiny fe ddechreuais i gyfarwyddo ac ysgrifennu. Esgorodd hyn ar gyfnodau'n arwain Theatr y Byd, yna Bara Caws, yr hen Gwmni Theatr Gwynedd a Llwyfan Gogledd Cymru yn artistig. Bellach wy'n cyfarwyddo teledu ac ambell ddarn theatr ynghyd ag ysgrifennu dramâu radio a theatr.

Dwy ddrama radio ddiweddar wy'n ymfalchïo ynddyn nhw, *O'r Kyiv i'r Creigiau* (hanes ffeithiol dihangfa menyw o Bucha yn Wcráin gyda'i chŵn a'i phlant i Gymru) ac *Ar Fryn Briallu*, drama am Iolo Morganwg gyda Steffan Rhodri, gafodd ei hysgrifennu yn y Wenhwyseg. Ro'dd y ddwy ar Radio Cymru dan ofal y cynhyrchydd Ffion Emlyn ac wy'n ddyledus iawn iddi. Wrth i fi ysgrifennu hwn, wy ar fin gorffen cyfarwyddo bloc *Pobol y Cwm*.

**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Gweler uchod.

**O ble rydych chi'n dod?**
O'r Porth yn y Rhondda.

**Ble rydych chi'n byw nawr?**
Caerfyrddin gyda fy nheulu.

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Ro'n i'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pontygwaith ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Mae'r ddwy ysgol bellach wedi eu dymchwel. Pry yn y pren achosodd dranc y gyntaf am wn i a gwarth o bosib achosodd ddymchwel y llall.
Fe ysgrifennais i'r ddrama *Blink* am effaith athro'n cam-drin plant, a hynny oherwydd profiad personol. Aeth y ddrama lwyfan ar daith hir. Wedi'r daith fe ges i wahoddiad i'w haddasu hi i'r Gymraeg ar gyfer Radio Cymru. Richard Harrington, cyn-ddisgybl yn Rhydfelen, berfformiodd y brif ran.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**
Y dylanwad mwya arna i yw'r llenyddiaeth a'r athroniaeth sy wedi llywio fy nramâu. Yn benodol, gwaith semiotegydd o'r Eidal, Umberto Eco. O ran y presennol, fy mhlant yw'r dylanwad mwya.

**Beth sy'n eich gwylltio?**
Gormod! A phopeth sy'n deillio o neo-ryddfrydiaeth a afaelodd yn y byd yn ystod fy ieuenctid ac sy'n bygwth ei ddinistrio'n llwyr. Fy nghas air i yw *progress*.


**Pam cyfrannu at a golygu'r gyfrol?**
Y man cychwyn oedd fy araith ym Mhrifysgol Abertawe yn 2017, 'Notes on Being a Devolutionary Dramatist'. Wedyn yr Athro Daniel G Williams, golygydd y gyfres Safbwyntiau, ofynnodd i fi lunio cyfrol ar y thema ganolog, y galw am ailradicaleiddio'r theatr Gymraeg a Chymreig er mwyn iddi fod yn ddrych go iawn o ddyhead y genedl ar ôl datganoli.

**Beth yw nod y gyfrol?**
Her yw'r gyfrol. Fy ngobaith i, drwy ei chyhoeddi hi, yw y bydd eraill yn ymateb ac neu'n gweithredu. Hyn, yn benodol, sy wrth wraidd cyfraniadau Sharon Morgan, sy'n sôn am ddiffyg cynrychiolaeth fenywaidd yn y theatr yng Nghymru, a Dafydd Llewelyn, sy'n honni taw theatr fwrgais yw'r theatr Gymraeg er ein bod ni'n honni ein bod ni'n genedl werinol.

**Sut mae modd ail-radicaleiddio'r theatr Gymraeg?**
Fe hunanffrwynodd ein theatr am ddeg mlynedd ar ôl 1997. O ganlyniad o bosib i genhedlaeth aeddfedu sy'n credu bod y brwydrau hanesyddol wedi eu hennill heb sylweddoli bod y rhyfel yn dal i rygnu ymlaen - ac o bosib ein bod ni'n ymladd gelyn newydd.
Gelyn Cymru heddi yw cyfalafiaeth neo-ryddfrydol sy am negyddu ein hunaniaethau ni a hunaniaethau holl bobloedd y byd. Yn wyneb y fath ymosodiad, rhaid i ni frwydro dros naratifau'n cenhedloedd ni ac mae gan y theatr rôl bwysig i chwarae.

**Yn y gyfrol rydych chi'n dweud bod 'theatrau wedi colli hyder yn eu natur ddirfodol'. Beth yw ystyr hyn?**
Nid rhywbeth i'w oddef wedi pryd o dapas-cyn-sioe, a diota yn y bar ar ei hôl hi yw theatr. Nid diddanu heb gwestiynu yw ei hunig bwrpas chwaith. Ac, yn sicr, nid cyflawni agenda wleidyddol llywodraeth yw ei rôl, fel yr ymddengys yw ei rôl hi ar hyn o bryd. Rôl theatr yw gofyn cwestiynau mawr am ein natur ddirfodol; cwestiynau angenrheidiol sy o bosib yn mynnu atebion fydd yn rhai anghyfforddus i'r gynulleidfa.

**Beth sy'n apelio fwya? Theatr, teledu neu radio. Pam?**
Theatr heb os. Modd i bobol gyd-ddyheu a chodi yw theatr. Yn ail, radio am ei fod yn tanio'r dychymyg. Wy ar dân dros y ddarpariaeth ddrama ar Radio Cymru




ond mae dan fygythiad ac mewn peryg o ddiflannu'n llwyr oherwydd diwedd y gân yw'r geiniog. Er iddi fod yn fodd arbennig i hyfforddi cyw actorion a dramodwyr a bod ganddi'r potensial i ategu at ddisgwrs y genedl, mae'n prysur dawelu. Hoffen i sgrifennu am y pwnc ac fe wnaf ryw ddiwrnod. O ran y teledu, mae'n fodd i fanipiwleiddio ac fe all danseilio'r gallu i freuddwydio. Fel dywedodd Frank Lloyd-Wright, 'TV is chewing gum for the eyes.'

**Beth yw eich barn am stad y theatr yng Nghymru?**
Nid oes gen i farn oddrychol.

**Pwy yw eich hoff ddramodydd? Pam?**
Unwaith yn rhagor, nid y ddrama ei hun sy wedi fy symbylu. Yn hytrach wy wedi cael f'ysbrydoli gan gysyniadau sy'n esbonio o bosib fy hoffter o gelf gysyniadol finimalaidd. Er taw'r ddrama yw cyfrwng fy mynegiant i, dyw'r 'ddrama' ddim wedi ysbrydoli fy nramâu i. Hoffen i 'sen i wedi bod yn gerddor: nodiant yw fy nramâu, dyna wy'n ei ddweud drwy'r amser.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i ddramodydd ifanc?**
Yn hanesyddol, ro'n i'n cynghori dramodwyr ifanc i sgrifennu o'r galon. Ac eto wy'n synhwyro bellach fod y cyfleoedd ym myd y theatr wedi crebachu oherwydd cyfalafiaeth ac erydiad gwerthoedd sifig. Felly fy nghyngor i yw hyn, cyfaddawdwch nes eich bod mewn sefyllfa i danseilio.

**Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?**
Dyw fi a 'nhad erioed wedi cytuno ar ein gweledigaeth o'r byd, yntau'n fab i gomiwnydd a minnau'n genedlaetholwr. Ond efallai taw 'nhad roddodd y cyngor gorau: yn gynta, ysgrifennwch gyda phen ac inc go iawn bob tro ac, yn ail, fe allwch ddweud o bo radd y bo'r unigolyn, yn ôl safon eu hesgidiau. Yn y BBC mae'r dynion diogelwch yn fy ngalw i'n Mistyr Clic Clic oherwydd sŵn fy sodlau.

Parhad tudalen 7 >

# PONTYPRIDD

Gohebydd y mis - Jayne Rees

Diolch o galon i Dave a Margaret Francis am eu cyfraniad i golofn mis diwethaf.

**Pwyllgor apêl ardal Pontypridd Eisteddfod 2024**

Gyda blwyddyn i godi ymwybyddiaeth a tharged ariannol heriol mae pwyllgor wedi'i sefydlu i gynnwys ardal ehangach na'r un a awgrymwyd ychydig wythnosau yn ôl yn y cyfarfod yn Amgueddfa Pontypridd.

Mae nifer o awgrymiadau yn barod ar gyfer digwyddiadau. Gwyliwch y cyfryngau cymdeithasol ac yma yn Tafod Elái am fwy o wybodaeth.

Cofiwch bod modd cyfrannu yn fisol am flwyddyn drwy'r banc a bydd y cyfraniad yma yn ymddangos yn erbyn y targed ardal. Roedd manylion llawn yn Tafod Elái mis diwethaf.

**Agor YMa**

O'r diwedd mae hen adeilad yr YMCA wedi agor ar ei newydd wedd. Mae nifer




o ystafelloedd cyfarfod ar gael i'w llogi yn ogystal a Theatr Ddawns a Neuadd sy'n dal 100 o seddi. Ar y llawr uchaf mae yna Feithrinfa Ddwyieithog.

Jen Angharad yw Prif Weithredwr yr Artis Community Cymuned sy'n rhedeg y ganolfan. Mae Cyngor y Celfyddydau, Cyngor Sir RH.C.T., Llywodraeth Cymru, Moondance Foundation a Garfield Weston Foundation wedi buddsoddi yn yr ailddatblygiad uchelgeisiol. Mae'r Cronfa Loteri Genedlaethol yn cefnogi rhaglen gweithgareddau y Ganolfan Man Creu Meithrin Celf. Yn ôl datganiad y Wasg gan Alaw Griffiths

'Mae YMa yn mynd i wneud gwahaniaeth sylweddol i'r dref a'r gymuned gyfan drwy hwyluso nifer o brosiectau cymunedol allweddol sy'n agos at galonnau'r bobl ym Mhontypridd'.




**Dathlu**

Penblwydd hapus Martyn Geraint. Pob dymuniad da wrth ddathlu pen-blwydd nodedig ddiwedd Mehefin.

**Merched y Wawr**

Yn y cyfarfod blynyddol mis diwethaf cytunodd y pwyllgor presennol i barhau am flwyddyn arall.

Fe aeth nifer o'r Gangen i ymuno yn yr orymdaith tu ôl i faner Merched y Wawr yn yr Ŵyl Gyhoeddi yn Aberdâr. Profiad arbennig a braf oedd gweld cynifer yn gwylio ar strydoedd y dref.

Mis yma mae'r aelodau yn mynd ar drip i Fae Caerdydd ac yn ymweld â'r Senedd ac yn cwrdd â Heledd Fychan A.S. Ar ôl gwylie'r haf byddwn yn ailymgynnull yng Nghlwb y Bont nos Iau Medi 14eg am 7.30yh.

Croeso cynnes i aelodau newydd yn enwedig siaradwyr newydd

**Clwb Llyfre**

Bydd y grŵp yn cwrdd fore Mercher Gorff 19eg am 10.30 yn y Llyfrgell. Cawn edrych mlaen at drafod cyfrolau y Steddfod pan fyddwn yn cwrdd fore Mercher Medi 20fed.

**Cyfnod newydd**

Pob dymuniad da i Gavin Ashcroft ac Elin Llywelyn Williams wrth iddynt ddechre ar bennod newydd yn hanes Ysgol Gymraeg Llwyncelyn. Gavin yn bennaeth ac Elin yn ddirprwy. Mae'r ddau yn gyn-ddisgyblion Ysgol Rhydfelen.

Ymddeoliad hapus iawn i'r pennaeth presennol Marc Rees.

**O'r diwedd!**

Buodd y dref heb Swyddfa Bost am fisoedd lawer ond braf dweud fod y cyfleusterau yn ôl fel rhan o siop newydd Nisa yn yr un safle ym Mill Street.

Fe fydd colofn mis Medi o dan ofal Dilys Davies

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Cefnogi Busnes Cymraeg**

Os ydych chi angen teiar newydd ar y car, cewch wasanaeth Cymraeg yn 'Mayes Tyres' ym Mharc Busnes Llantrisant (drws nesaf i Y Sied). Mae pawb yn y garej newydd yn siarad Cymraeg.

**Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024**

Bydd y bwrlwm yn dechrau ym mis Medi. Os oes gennych syniad codi arian, plîs rhowch wybod. Mae ardaloedd Tonyrefail a Gilfach Goch yn dod at ei gilydd ar gyfer yr ymgyrch codi arian.

## O DAN YR WYNEB (Parhad)

**Beth yw'r gwersi gafodd eu dysgu yn ystod eich gyrfa?**

Dyw gallu ac integriti ar eu pennau eu hunain ddim o werth yn y byd. Fe ddysgais i hynny'n rhy hwyr.

**Beth sy ar y gweill?**

Ambell i beth, ond yr hyn wy'n mawr obeithio yn fwy na dim yw y bydd modd derbyn gwahoddiad i gydweithio â gwneuthurwyr o Dde Affrica yn The Centre for the Less Good Idea (Jo'berg) ar ôl gweithdy ar *Aurora Borealis,* fy nrama ddiweddara, yn Yr Egin, Caerfyrddin, yn Ionawr eleni.

**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**

'Pasta Dad' yw enw 'mhlant arno fe. Saws tomato syml, hynny yw olew, garlleg, tomato, halen, pupur a hanner llwyaid o siwgr, wedi ei goginio'n hir ac yn araf. Yna ei gymysgu gyda Rigatoni (bronze-die) o'r radd flaena gyda chaws Parmigiano Reggiano aeddfed wedi ei daenu drosto. A hynny yng nghwmni fy nheulu.

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**

Fy mhechod gwaetha, potel o win da yn gwylio bocs set wrth i'r haul fachlud dros afon Tywi tu fas i ffenest ffrynt y tŷ.

*Llwyfannu'r Genedl Anghyflawn*, Gwasg Prifysgol Cymru. £16.99

***'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf"***

**Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar rcerijones@gmail.com

( Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)

# Ysgol Pont-Siôn-Norton

**Pêl-rwyd**
Diolch i Ysgol Garth Olwg am drefnu twrnamaint i'r clwstwr. Roedd yn gyfle gwych i chwarae'r gêm ac i gymysgu gyda digyblion y clwstwr. Diolch Mrs Jones am yr hyfforddiant!



**Cyhoeddi'r Eisteddfod**
Aeth nifer o'r staff, disgyblion a'r rhieni i Aberdâr ar gyfer y gorymdeithio i gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Rhondda-Cynon-Taf 2024. Da iawn i Ela -Mai ac Atlanta am ddawnsio mor hyfryd!



**Gwyddoniaeth**
Diolch unwaith eto i Experimental Science am y gweithdai wythnosol. Roedd y sesiwn diwethaf yn un diddorol dros ben!!



**Llangrannog**
Ar ôl 4 blynedd, roedd hi'n hyfryd cael mynd a chriw mawr o ddisgyblion blwyddyn 4 a 5 i Langrannog am y penwythnos unwaith eto. Roedd pob un



wrth eu boddau gyda'r amrywiaeth o weithgareddau gwych ac eisiau mynd nôl y flwyddyn nesaf! Diolch i'r staff aeth i Langrannog am y penwythnos er mwyn rhoi'r cyfle bendigedig i'r disgyblion.

**Trip**
Aeth blwyddyn 1 a 2 i Barc y Rhath ar gyfer eu trip Haf. Roedd y tywydd yn arbennig ac fe gafwyd amser gwych yn mwynhau yn y parc ac yn bwyta hufen ia! Diolch i Ffrindiau PSN am dalu am y bws.





**Ysgol Awel Taf**
Cyhoeddwyd enw ein hysgol newydd o'r diwedd - Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf! Bu blwyddyn 3 a 4 yn ddigon lwcus i ymweld â'r ysgol yn ystod y mis i weld y datblygiadau. Diolch i ISG am y croeso. Llongyfarchiadau mawr i Ms Heledd Stephens ar gael ei phenodi yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf. Mae hi'n gyfnod cyffrous i ni gyd!




# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol: Dawn Walters*

**Prosiect Graffiti**
Cynhaliwyd gweithgaredd prosiect graffiti llwyddiannus yn ddiweddar dros gyfnod o 4 noson gyda Thomas Llewellyn a'i gwmni Tee2sugars. Daeth 22 o blant y pentref i gymryd rhan. Trefnwyd dau sesiwn o gynllunio a dau sesiwn o waith llaw. Adeilad y clwb rygbi yn y Stryd Fawr oedd y ffocws. Mae'r cyhoedd yn dwli ar y gwaith. Diolch i Kim Wyllis am drefnu. Ariannwyd y prosiect gan y Cyngor Cymuned.







# Cantorion Creigiau yn Dathlu 50 Mlynedd

Sefydlwyd Cantorion Creigiau yn 1970 gan eu Cyfarwyddwr Cerdd, Mair Roberts, ac eleni daeth cyfle i ddathlu dros 50 mlynedd o ganu.

Teithiodd y côr i Eglwys Sant Ioan, Keynsham, ger Bryste ym mis Ebrill i godi arian tuag at elusen Ysbyty Brenhinol Caerfaddon. Trefnwyd y cyngerdd gan Glwb Rotary Chelwood Bridge gyda chymorth Jane Williams, Llywydd Cantorion Creigiau ac aelod o Glwb Rotary y Garth.

Daeth cynulleidfa o 200 i fwynhau perfformiad ardderchog gan y côr yn cynnwys cerddoriaeth amrywiol a nifer o hoff emynau Cymraeg. Cyflwynwyd y noson gan Barbara Rodd, aelod o'r côr a Chlwb Rotary y Garth. Canmolwyd y côr ar eu geirio clir yn adeilad anferth yr Eglwys a'u dehongliad cerddorol o dan arweinyddiaeth Mair Roberts sy'n gantores broffesiynol. Yn rhannu'r cyngerdd roedd côr Gwragedd Milwrol Bryste o dan eu harweinydd Beth Morgan.

Mae'r côr nawr yn edrych ymlaen at noson arbennig yn dathlu Cyngerdd 50 Mlynedd (tair blynedd yn hwyr oherwydd Covid) ar ddydd Sadwrn 8fed Gorffennaf am 7.30yh yn Eglwys Sant Marc, Gabalfa. Hefyd yn cymryd rhan yn y cyngerdd bydd Côr Heol y March enillwyr Côr Cymru ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Gellir cael tocynnau, £10, oddi wrth aelodau'r côr neu Eric Willis ffôn 07709 993127.

Mae trefniadau'r dyfodol yn cynnwys recordio emynau i Radio Cymru a fydd hefyd yn cael eu harchifo yn y Llyfrgell Genedlaethol. Dydd Sadwrn, 7fed Hydref, cynhelir cyngerdd yn Eglwys Sant Catwg, Pentyrch am 7.30yh.

Os oes gennych ddiddordeb mewn canu ac am ymuno â ni dewch draw i Glwb Golff Creigiau lan lofft ar nosweithiau Sul 7.30 - 9.00. Does dim rhaid i chi allu darllen cerddoriaeth - dim ond cael yr awydd i ganu a chymdeithasu!

Jane Williams.



Cantorion Creigiau yn Keynsham

# Eisteddfod Genedlaethol 2024

**Pwyllgorau Codi Arian a Chodi Hwyl**

Erbyn hyn, mae Pwyllgorau Codi Arian a Chodi Hwyl wedi'u sefydlu ar draws yr ardal ac mae llu o weithgareddau ar y gweill. Os ydych chi am helpu ar bwyllgor, neu drefnu gweithgaredd o unrhyw fath, plîs rhowch wybod.

**Gŵyl Cyhoeddi**

Braint oedd cael bod yn rhan o'r Cyhoeddi ddydd Sadwrn, 23 Mehefin yn Aberdâr. Yr uchafbwynt i fi yn oedd gweld cymaint o bobl ar strydoedd Aberdâr. Rydyn ni wedi derbyn nifer o negeseuon yn dweud cymaint roedd pobl wedi mwynhau'r digwyddiad. Diolch i D Leslie Davies am gynnal taith gerdded yn y dref yn y bore (a gododd dros £250) a diolch i Dysgu Cymraeg Morgannwg am drefnu Sadwrn Siarad i siaradwyr newydd i gyd-fynd â'r Cyhoeddi. A diolch wrth gwrs i bawb a helpodd i wneud y diwrnod yn gymaint o lwyddiant.

**Lleoliad yr Eisteddfod**

Gwyddom erbyn hyn y bydd lleoliad yr Eisteddfod yn cael ei ddatgelu yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan eleni – y garreg filltir nesaf ar ein taith gyffrous tuag at fis Awst 2024.

Helen Prosser
(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith
Eisteddfod Rhondda Cynon Taf)

# Cywydd Croeso Eisteddfod Rhondda Cynon Taf

Iawn byt? A wyt obeutu?
Mae'r llwyth, mae'r tylwyth, mae'r tŷ
yn creu sioe lle croesewir
enfys iaith i'n nef o sir;
creu o'n hiaith, obaith. Jobyn
i bawb fydd ei byw, bob un.
Mae awen cwm yn ein cân
a'i geiriau'n aur ac arian
yn gyfoethog o fythwyrdd,
erwau'r gân yw'n llethrau gwyrdd.

Y mae i gwm ystum gwên
a rhed hi'n un lli llawen
ar ei hyd, cerrynt strydoedd
yw gair cymdogaeth ar goedd,
dished a laff pob caffi;
dewch oll, bydd paned i chi.
Cantorion yw'n hafonydd,
synau'r dŵr yn seinio'r dydd.
Nawr Taf sy'n denor y tŷ,
afon Cynon sy'n canu,
Rhondda fach a Rhondda Fawr
ac Elái'n gôr goleuwawr
o lachar, yn glochdar glân;
yn Rhigos o ddarogan.

Aberdâr yw bro'r derwydd,
Ystrad yw haul stori'r dydd.
Llwyd o'r Bryn yw'r Comin, cawn
o'i heddle wledd adroddlawn.
Rhown ni Faes B i Gwm Bach,
lle i gelf yn null Gilfach,
yng Nghlwb y Bont a Phonty,
sŵn pob pafiliwn a fu.
Glyn-coch croch yw caeau'r ŵyl,
yn Nhrehafod mae'n brifwyl!

Calon wrth Gynon, gweinied
hir lafn, aed gwaddol ar led
o Daf Elái, fe dyfwn
asbri taith yr ysbryd hwn
o'r Rhondda i'r Rhondda; rhydd
yw'n doniau â'n hadenydd.
Â chorn gwlad codwn adain,
dathlwn a gwaeddwn uwch gwain
y cledd, ynghyd â'r heddwch,
y daw'r iaith a'i hegni'n drwch.
Meiddio a wna'n cymoedd ni
ddod â dawn yn ddadeni.
Iawn, byt! Nawr cer obeutu
Â biwt o iaith i bob tŷ.

**Aneirin Karadog**

# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

Ydych chi'n dilyn y ffasiwn ddiweddaraf mewn paratoi saladau?

Rwyf wrth fy modd yr adeg hon o'r flwyddyn gan ei fod yn gyfle i mi roi cynnig ar bob math o wahanol fathau o wneud a bwyta bwydydd amrwd a saladau.

Tybed a oes rhai ohonoch chi (efallai o oedran penodol) yn cofio paratoi salad haf mewn gwers 'Domestic Science' lle oedd rhaid cael plât hirgrwn a pharatoi'r tomatos, ciwcymbr, wyau a.y.b. i orwedd mewn rhesi taclus ar wely o letys ac, efallai os fyddech yn dilyn cwrs uwch, gwneud salad mewn aspic? Am lafurus!





Roedd y dewis o gynhwysion llawer mwy cyfyngedig hefyd ar y pryd er bod Mary Berry yn defnyddio 'pimentoes', dresin Ffrengig, brwyniaid ac olewydd gwyrdd yn ei llyfr coginio *Hamlyn All Colour Cook Book* yn 1974; mae copi yn dal ar fy silff lyfrau coginio.

Ers hynny mae'r ffasiwn mewn dulliau o weini salads a'r cynhwysion a ddefnyddir wedi newid llawer gwaith; ond mae cyflwyno'r cynhwysion mewn adrannau ar wahân yn y ffasiwn unwaith eto. Y tro hyn fei gelwir y dull hwn o gyflwyno salad yn Bowlenni Poke. Mae'r cynhwysion bellach yn llawer mwy helaeth a diddorol na'r rhai oedd ar gael yn y 1970au. Mae poblogrwydd y math yma o salad wedi arwain at siopau bwyd i gynnig eu fersiynau nhw o Poke a bwytai sy'n arbenigo mewn eu gweini; mae hyd yn oed yn bosibl eu harchebu i'w derbyn













gartref trwy wasanaeth cwmnïau fel Deliveroo a Just Eat.

Mae *poke* yn golygu 'sleisio neu dorri' mewn Hawäi. Mae'n debyg fod y math yma o fwyd yn tarddu o ynysoedd Hawaii ac wedi'i wreiddio yn y dyddiau pan fyddai pysgotwyr brodorol yn torri pysgod cregyn bach ac yn eu gweini'n amrwd, wedi'u sesno â beth bynnag oedd wrth law, fel arfer halen y môr, gwymon a limu (math o algâu brown). Daeth dylanwad bwydydd Japaneaidd, Tsieineaidd, Philippine a Phortiwgal i'r ynysoedd trwy'r grwpiau ethnig a ymsefydlodd yna yn yr 19eg a'r 20fed ganrif. Roedd llawer o Japaneaid yn gweithio yno ar blanhigfeydd siwgr a phîn-afal gan ddechrau tyfu reis a chynhyrchu saws soi lleol; gwnaethant hefyd boblogeiddio sashimi (tofu). Gyda dylanwad y boblogaeth fudol daeth y powlenni yn fwy cywrain ac amrywiol o ran eu cynnwys gyda'r bowlen poke yn datblygu i gynnwys reis, llysiau a saws soi gyda darnau o bysgod amrwd, ffres, fel tiwna ahi neu eog.

Erbyn hyn mae bowlenni poke yn amrywiadau ffansïol o'r rhai gwreiddiol - gallant gynnwys reis, nwdls Asiaidd, bwyd môr, pysgod (amrwd neu rost), llysiau wedi'u marineiddio, ffrwythau egsotig, sesnin Asiaidd - saws soia, teriyaki neu wasabi, gyda dresin. Mae wedi dod yn fwyd deniadol trwy fod yn lliwgar, blasus a syml i'w baratoi, ac mae'n dda i chi hefyd. Mae powlenni poke sydd wedi eu cynllunio'n dda yn llawn fitaminau yn enwedig D ac C, haearn, sinc, magnesiwm, potasiwm, protein ac olewau omega os fyddwch yn defnyddio pysgod olewog.

**Hanfodion powlen poke wych**

Dylai powlen poke edrych cystal ag y mae'n blasu. Mae'n ymwneud â chydbwysedd blasau a gwead, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys rhywbeth hufennog, crensiog, ffres, hallt, melys a umami. Trwy ddefnyddio ystod o gynhwysion mae modd creu pryd neu fyrbryd maethlon a chytbwys.

Mae'n hawdd adeiladu eich bowlen eich hun gartref i weddu i'ch chwaeth eich hun:

**Yn gyntaf dewiswch eich sylfaen**

Mae reis gwyn Jasmine, reis swshi gwyn, reis brown, cwinoa, farro, nwdls soba, nwdls gwenith cyflawn, reis gwyllt, cwscws i gyd yn ddewis da. Ar gyfer Gi isel defnyddiwch reis Basmati brown, gwenith Bulgur, cwscws neu cwinoa. Mae codenni o rawn wedi'u coginio yn ddefnyddiol pan fyddwch chi ar frys.

**Dewiswch brotein**

Ar gyfer powlen glasurol defnyddir pysgod amrwd ffres, fel tiwna neu eog, ond mae'r paratoi a gweini yn ymwneud â thrin a gweini pysgod amrwd. Opsiynau protein eraill yw cyw iâr wedi'i goginio, corgimychiaid; opsiwn fegan neu lysieuol fyddai madarch, tofu, tempeh, edamame, ffa neu ffacbys.

**Dewiswch ddresin a fydd yn ategu ac nid yn gor-bweru cynhwysion y bowlen.**

Gallwch ddewis Miso, tsili melys, aioli Wasabi, olew sesame, mayo plaen neu sbeislyd gyda shichimi togarashi (cymysgedd saith sbeis Japaneaidd), saws Ponzu, saws soi, Siracha, saws Teriyaki, sudd leim ffres, finegr reis. Gallwch arbrofi, ond byddwch yn ofalus gan sicrhau ei fod yn ategu at flasau'r prif gynhwysion. Mae rhai ohonyn nhw hefyd yn uchel mewn calorïau a sodiwm, felly defnyddiwch yn gynnil a darllenwch y labeli.

**Dewiswch eich garnais**

Dyma rai o'r cynhwysion a ddefnyddir yn aml mewn powlenni poke, ond nid pob un ar yr un pryd wrth gwrs!

Ffrwythau a llysiau ffres: rhowch gynnig ar afocado wedi'i sleisio, ysgewyll ffa, edamame, radis, pîn-afal, mango, moron wedi'u gratio, betys, ciwcymbr, pupur coch/melyn.

Picls: sinsir wedi piclo, neu lysiau gallwch biclo eich hunan.

(I wneud llysiau wedi'u piclo, cyfunwch symiau cyfartal o ddŵr a finegr reis ac ychwanegwch siwgr a halen at eich dant; weithiau dwi'n amrywio'r melys gan ddewis mêl neu triagl pomgranad. Dewch â'r cyfan i ferwi ac yna tynnwch oddi ar y gwres ac ychwanegu'ch llysiau dymuno wedi'u paratoi. Gadewch iddynt eistedd am o leiaf 10 munud cyn ei gweini. Gallwch chi wneud hyn yn hawdd gyda'ch hoff lysiau crensiog.)

Cnau a hadau: cnau almon, cnau macadamia, cnau daear wedi'u rhostio neu hadau sesame wedi'u tostio.

Ychwanegu ychydig o sbeis: os am ychydig o wres defnyddiwch bys wasabi wedi'u malu, tsilis ffres, jalapenos neu furikake (sesnin Japaneaidd).

Winwns: shibwns, winwnsyn melys, winwnsyn coch, sglodion garlleg neu sialóts wedi'u ffrio.

Gwymon: taflenni Nhori neu salad gwymon i gael cyffyrddiad ffres.

Perlysiau ffres: mintys, coriander, basil, dil.

**Cyfuniadau powlen poke i roi cynnig arnynt -**

**Rysáit Hawaiaidd traddodiadol wedi'i gosod ar ben reis swshi gwyn -** tiwna tun wedi'i gymysgu â shibwns,

Parhad tudalen 11>

# Colofn Blasus a Iachus
**(Parhad)**

saws soi, olew sesame a saws garlleg tsili, gyda hadau sesame ar gyfer crensian ar ei ben.

**Afocado ac edamame:** edamame gyda shibwns, saws soi ac olew sesame. Ychwanegwch ychydig o halen a tsili i flasu a rhowch haenau crensiog Nhori a sinsir wedi'u piclo ar ei ben.

**Opsiwn i lysieuwyr:** madarch Shiitake, leim, garlleg, sinsir a tsili wedi'u cyfuno ag olew sesame a saws soi, i farinâd madarch shiitake ffres. Ychwanegwch ychydig o tofu cadarn ar gyfer protein ychwanegol a gweinwch dros ychydig o reis brown, wedi'i addurno â chilli ffres a dail mintys.

**Powlen tofu:** reis brown, tofu, betys bach, radish, moron wedi'u gratio a'u piclo, finegr reis, mirin ac olew sesame. Gwasgaru â Nori a chracers gwymon.

Dyma'n ffefryn i ar gyfer swper cyflym -

3 leim

1 tsili coch, wedi'i dorri'n fân (heb yr hadau)

2 lwy fwrdd o olew sesame

150g o gorgimychiaid wedi'u coginio

250g cwdyn o rawn cymysg (neu 250g o rawn cymysg wedi'u coginio)

1 afocado aeddfed, wedi'i dorri'n giwbiau

6 radis, wedi'u sleisio

100g mango, wedi'u plicio a'u deisio

3 shibwns, wedi'u sleisio

pinsiad hadau sesame, i'w gweini

Chwisgwch y sudd leim, y tsili a'r olew gyda'i gilydd mewn powlen. Ychwanegwch sesnin a'r corgimychiaid a'u gadael i farinadu am 10 munud.

Yn y cyfamser, rhowch y grawn mewn rhidyll ac arllwyswch ddŵr poeth o'r tegell i'w meddalu ychydig. Draeniwch yn dda.

Rhannwch y grawn rhwng dwy bowlen. Trefnwch y corgimychiaid wedi'u marineiddio, afocado, radis, mango a shibwns ar ben y grawn.

Ysgeintiwch unrhyw farinâd sydd dros ben a gweinwch y powlenni gyda chwistrelliad o hadau sesame.

O.N. Syniadau am gyfieithiad o 'poke'?



# Ysgol Gwaelod-y-garth


**Bws Beic Ysgol Gwaelod y Garth**



Rydym yn gyffrous i gyhoeddi bod ein taith Bws Beic cyntaf wedi bod yn llwyddiant mawr! Ar ddydd Gwener 23 Mehefin daeth dros ugain o ddisgyblion, rhieni a gwirfoddolwyr ynghyd a seiclo o Ffynnon Taf i'r ysgol. Rydym yn ddiolchgar iawn i Tori sydd â mab yn y Derbyn, am helpu i gydlynu sefydlu Bws Beic i Ysgol Gwaelod Y Garth, i Hamish o Sustrans a'r holl rieni a staff am eu cefnogaeth. Mae'r daith nesaf yn cael ei chynllunio ar gyfer dydd Gwener Gorffennaf y 7fed a bydd yn cychwyn yn Ffynnon Taf (o Stryd y Brenin ). Amser cyfarfod: 8.20 yb. Mae annog teithio llesol yn flaenoriaeth i ni yma yn ysgol Gwaelod y Garth ac mae ein bws cerdded sy'n gweithredu yn ddyddiol o Heol Berry yn mynd o nerth i nerth. Cofiwch i ddilyn ein cyfrif trydar am wybodaeth bellach.

**Her y Ffyrdd Gwyrdd**

Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru rydym yma yn ysgol Gwaelod y Garth wedi sefydlu senedd i ddisgyblion cynradd ysgolion Cymraeg Caerdydd. Rydym yn trefnu cyfarfodydd Ein Senedd Ni bob tymor yn Nhŷ Hywel Bae Caerdydd ac yn cael cyflwyniadau gan aelodau o Lywodraeth Cymru a Senedd Ieuenctid Cymru. Rydym fel disgyblion yn trafod sut allwn wella ein hysgolion a chyfrannu at ein cymunedau. Ein prosiect diweddaraf yw Her y Ffyrdd Gwyrdd. Dydd Gwener Mehefin 30 rydym wedi gosod sialens i ysgolion y ddinas ac rydym am droi ffyrdd Caerdydd yn rhai gwyrdd. Rydym yn annog pawb i beidio defnyddio car i ddod i'r ysgol yn y bore neu'r prynhawn! Yn hytrach, defnyddio'r bws cerdded, beicio i'r ysgol, parcio car a cherdded i'r ysgol neu ddod ar fws. Byddwn yn adrodd nôl i'r senedd yn y prynhawn ar lwyddiant y diwrnod.




# Canlyniadau Llwyfan Eisteddfod yr Urdd 2023

Dawns Stepio Grŵp Bl.6 ac iau: 2il Bro Taf, Adran Bro Taf
Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D): 1af Raffaele Mario Bright, Ysgol y Creigiau.
3ydd Osman Khan, Ysgol Gynradd Gwauncelyn
Unawd Pres Bl.6 ac iau: 2il Osian Rhys Jardine, Y G G Gwaelod Y Garth
Parti Deulais Bl.6 ac iau (YC / Adran):
2il YGGG Llantrisant
Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (D): 2il Creigiau, Ysgol y Creigiau
Parti Bl.6 ac iau (Adran): 2il Bro Taf, Adran Bro Taf
Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (Adran): 2il Bro Taf, Adran Bro Taf
Perfformiad Theatrig o Sgript Bl.6 ac iau (D): 2il Grwp Emily, Ysgol y Creigiau
Côr Bl.6 ac iau (Adran): 3ydd Bro Taf, Adran Bro Taf
Côr Bl.9 ac iau (Adran): 1af Bro Taf, Adran Bro Taf
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol i Ferched Bl.9 ac iau:
1af Beca Fflur George, Ysgol Garth Olwg
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol i Fechgyn Bl.9 ac iau
3ydd Osian Jones, Adran Bro Taf
Deuawd Bl.7, 8 a 9: 2il Mali ac Elen, Ysgol Llanhari
Dawns Greadigol Bl.7 a dan 25 oed:
1af Ysgol Garth Olwg
Unawd Piano Bl.10 a dan 19 oed:
2il Charlotte Kwok, Ysgol Gyfun Y Pant
Unawd Telyn Bl.10 a dan 19 oed:
2il Erin Fflur Jardine, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
Perfformaid Theatrig Unigol o gân o Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed
1af Sara Neve Rees-Roberts, Ysgol Garth Olwg
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol i Fechgyn Bl.10 a dan 25 oed: 2il Daniel Calan Jones, Aelod Unigol Cylch Gorllewin Caerdydd
3ydd Morus Caradog Jones, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.
Dawns Stepio Grŵp dan 25 oed: 1af Bro Taf, Adran Bro Taf
Dawns Stepio Bl.7 a dan 25 oed
2il Adran Bro Taf

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

**Mis Gorffennaf 2023:**
2 Gorffennaf – Oedfa yng Nghapel Penrhiw, Sain Ffagan dan ofal Delwyn Sion [11:00 a.m.]
9 Gorffennaf – Oedfa Ardal y Creigiau ac Efail Isaf
16 Gorffennaf – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
23 Gorffennaf - Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys (ar y cyd a'r Tabernacl, Efail Isaf (yn y Tabernacl) [10:45 a.m.]
30 Gorffennaf – Oedfa ar y cyd dan ofal Ian Hughes (ym Methlehem)

**Mis Awst 2023:**
6 Awst – Oedfa ar y cyd a'r Tabernacl, Efail Isaf (yn y Tabernacl) [10:45 a.m.]
13 Awst - Oedfa ar y cyd dan ofal y Parchedig Lona Roberts (ym Methlehem)
20 Awst - Oedfa ar y cyd a'r Tabernacl, Efail Isaf (yn y Tabernacl) [10:45 a.m.]
27 Awst - Oedfa ar y cyd (ym Methlehem)




*"Ac yna, wedi cyfnod y Parchedig T J Rees y gwelwyd cychwyn ar gyfnod maith gweinidogaeth y Parchedig Robert Griffith Berry (1897 tan 1945)!*

*Ond ymddengys y bydd yn rhaid aros am ofod yn rhifyn mis Gorffennaf Tafod Elai i gael mwy o'r hanes!"*

Dyna ddiwedd yr erthygl a gyhoeddwyd yn rhifyn mis Mehefin 2023 o "Tafod Elai", a chan obeithio nad ydych, hyd yma, wedi syrffedu ar hanes Bethlehem, Gwaelod-y-garth, dros y degawdau a'r canrifoedd, dyma barhau a'r stori!

"*Ar gymhelliad Mr Thomas Millward o Waelod-y-garth, trefnwyd Sul i Mr Berry wasanaethu Bethlehem. Pregethodd yng Ngwaelod-y-garth am y waith gyntaf fel myfyriwr ar y 14eg o Fehefin 1896; a thrachefn ar Sul Gorffennaf 26ain, 1896. Ymserchodd yr Eglwys cymaint ynddo fel y penderfynodd ei alw'n weinidog.*"

Mae copi o "alwad" y Parchedig R G Berry (1869 – 1945) ar gael, ac fe'i cynhwyswyd, fel a ganlyn, yn rhifyn 32 o'r "Garth Domain", Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Pentyrch a'r Cylch:-

**"Galwad Eglwysig oddiwrth yr Eglwys Annibynol yn Bethlehem, Pentyrch, Morgannwg, i Mr R G Berry, Llanrwst, Gogledd Cymru, Awst 23, 1896.**

*Annwyl Frawd,*

*Yr ydym ni sydd a'n henwau isod ar ran yr Eglways Annibynol Bethlehem, Gwaelod-y-garth, Pentyrch, ar ol ymgynghori a'n gilydd ac hefyd a'r Arglwydd, yn anfon i chwi yr alwad unfrydol hon i ddyfod i lafurio yn ein plith yng ngwaith mawr a phwysig y Weinidogaeth, gan hyderu yn gryf fod hyn yn unol ag ewyllys Pen Mawr yr Eglwys ac y tueddir chwi dan Ei arweiniad Ef i gydsynio a'n cais, ac y bydd eich dyfodiad i'n plith yn cael ei ddilyn a chyflawder bendith Efengyl Crist.*

*Yr ydym yn ymrwymo i dalu i chwi £5/10/0 y mis, sef y swm £71/10/0 yn flynyddol, at eich cynhaliaeth.*

*Caniateir i chwi un Sul rhydd o bob mis, ond hyd y mae yn bosibl disgwylir i chwi fod yn bresenol yn Bethlehemar bob Sul pen mis, a pheidio absenoli eich huno'n pulpud ddau Sul yn olynol oddieithr pan y bydd amgylchiadau arbennig yn galw am hynn.*

*Bydd ty'r Capel (ar ol y flwyddyn bresennol) at eich gwasanaeth pan y byddwch yn dewis myned i fyw ynddo ac am y rhent flynyddol o £5.*

*Bydd mis o rhybudd yn ofynol oddiwrthych chwi neu oddiwrth yr Eglwys os bydd ymadawiad yn cymeryd lle.*

*Yr ydym yn dymuno i chwi hi roes, nerth ac iechyd i weithio dros Grist a'r Efengyl a phan ddaw yr adeg i chwi noswylio bydded i chwi dderbyn y gymeradwyaeth uchaf o enau y Meistr Mawr.*

*Arwyddwyd dros yr Eglwys,*
*Joseph Millward; George Thomas;*
*Charles Davies; John Foxall;*
*Jonah Miles; Philip Phillips;*
*Evan Watkins. (Diaconiaid)"*

Atebwyd y cais yn gadarnhaol, ac mae'r gweddill yn rhan o hanes Bethlehem, oherwydd iddo aros yn weinidog ar yr eglwys hyd ei farwolaeth yn 1945.

Pregethodd ei bregeth gyntaf fel Gweinidog ym Methlehem ar y 13eg o Ragfyr 1896.

Yn "Y Tyst a'r Dydd" 13/01/1897, ceir hanes cyfarfodydd ordeinio'r Parchedig R G Berry:-

"*Ar y dyddiau Sul a Llun, Ionawr 3ydd a'r 4ydd, cynhaliwyd cyfarfodydd ordeinio Mr R G Berry, Llanrwst, yn weinidog ar eglwys Annibynol Bethlehem, Pentyrch.*

*Cafwyd ar y Sabbath dair Pregeth gan y Parch W. Cynwyd Williams, Llanrwst, cyn-weinidog Mr Berry.*

*Ar y Llun, yn oedfa'r bore, llywyddodd y Parch W I Morris, Pontypridd. Gwnaeth y Cadeirydd gyfeiriad tyner at farwolaeth sydyn Dr Herber Evans, yr hwn a ddisgwylid i gymeryd rhan yn y cyfarfodydd gyda'r Proffeswr Davies MA, Bangor, yr hwn hefyd, oherwydd marwolaeth y Doctor, oedd yn absennol. Ar gynigiad y Parch J Williams, Hafod, ac eiliad y Parch W Rees, Glandwr, pasiwyd cydymdeimlad a Mrs Evans a'r perthnasau.*

*Dechreuwyd y gwahanol gyfarfodydd gan y Parchn W E Evans, Tabor, Jonah Miles, Gwaelodygarth, R A James, Tongwynlais a W Hughes, Barry.*

*Boreu Llun, pregethodd y Parch M C Morris, Ton-ystrad, ar Natur Eglwys. Gofynwyd y cwestiynau gan y Parch J Davies, Efail-isaf, yr hwn, wedi cymeryd yr arwydd arferol, a offrymodd yr urdd-weddi.*

*Pregethwyd siars i'r gweinidog gan y Parch W Cynwyd Williams, ac i'r un cyfeiriad gan y Parch T J Rees, Llangatwg. Cyflwynodd y Parch Cynwyd Williams, ar ran ei eglwys, bwrs o aur i Mr Berry, gan roddi iddo glod uchel, i'r hyn yr atebodd yntau yn fyr.Terfynwyd gan y Parch D G Rees, Whitchurch.*

*Yn y prynhawn a'r hwyr, pregethodd y Parchn T Hughes, Minny-street, Cathays, J Williams, Hafod, H M Hughes, Caerdydd, a J R Davies, Docks. Yr oedd yn bresennol nifer lluosog o weinidogion a phregethwyr, ac amryw leygwyr wedi dyfod o gryn bellder. Cyfarfodydd llwyddianus iawn.*"

Cyhoeddwyd "Cofiant" i R G Berry, o waith y Parchedig Huw Ethall, gan Wasg John Penry yn 1983, bron ddeugain mlynedd wedi ei farwolaeth.

Mae ei hanes yn llenydda, ac fel dramodydd, yn ogystal a'i waith fel gweinidog, wedi ei gynnwys yn y gyfrol werhfawr yma.

Mae un o gyn-aelodau (a diacon) Bethlehem, y diweddar Ben Howell, yn cael ei ddyfynnu fel a ganlyn ynddo:-

"*…fod ganddo atgof byw yn ei blentyndod o weld cylch (halo) uwch ben y gweinidog yn y pulpud yn gyson.*"

A T.W Thomas wedyn, un arall o blant yr eglwys yng nghyfnod Berry, yn datgan mai ef oedd:- "y *dyn gorau a gyfarfum i erioed.*"

Ar y 13eg o Awst 1903, priododd R G Berry â Hannah Watkins, Tŷ Newydd, Gwaelod-y-garth, un o un ar ddeg o blant. Brawd iddi oedd tad Vernon Watkins y bardd. Ganed eu merch, Margaret, ar y 17eg o Awst 1904.

Bu farw ar y 13eg o Ionawr 1945, ac fe'i claddwyd ar yr 16eg o'r mis ym Mynwent Eglwys Sant Catwg, Pentyrch. Ar garreg ei fedd torrwyd y geiriau canlynol – "*Gweinidog da i Iesu Grist a llenor coeth.*"

Cyhoeddwyd cyfrifon yr eglwys am y flwyddyn 1944 ym mis Mawrth 1945, ond ychwanegwyd yn helaeth i'r cyhoeddiad a'i droi'n "*Rhifyn Coffa ein diweddar Annwyl Weinidog Y Parch. Robert Griffith Berry M.A.*"

Parhad tudalen 13 >

# Bethlehem (Parhad)

Cyflwynwyd "*Annerchiad y Diaconiaid*" ar gychwyn y cyhoeddiad, yn nodi mai yn 1940 y cyflwynwyd "Adroddiad" diwethaf yr Eglwys, ac o'r herwydd cynhwysywd ynddo restr "Marwolaethau, Priodasau a Bedyddiadau" oddiar y flwyddyn honno.

Gwelir cyfeiriad at fedydd Mary Barbara Edwards, merch Rhys a Joanna Edwards (Ionawr 1943) ynddo – ac mae Mary yn aelod ffyddlon ym Methlehem hyd y dydd heddiw.

Nodir hefyd ymysg y priodasau i Meirion Castle a Nansi Llewellyn gyfnewid eu llwon priodas ar yr 11eg o Dachwedd 1944, a bydd y rhai hŷn ohonom yn cofio'n annwyl iawn am y teulu yma hefyd, a'u bod wedi cyflwyno blodau bob Sul i'w gosod yn y Set Fawr am ddegawdau lawer.

Yn y daflen ceir hefyd gofnod manwl o ddydd angladd R G Berry, gan gynnwys braslun o'r deyrnged a gyflwynwyd gan un o'r diaconiaid, T W Thomas, Pentyrch.

"*Mr Berry yw'r unig weinidog a gofir yma gan y mwyafrif ohonom. Ef a'n bedyddiodd ac a'n derbyniodd i gyflawn aelodaeth o'r Eglwys; ef a'n priododd ac a gladdodd ein hanwyliaid.,,,Ni welwyd erioed berffeithiach cyfuniad o Weinidog a'i Eglwys, Bugail a Phraidd, Pregethwr a Chyfaill, Ysgolheictod a Symlrwydd, ie yr Hiwmorist a'r Realist, ag a geid yng nghymeriad y boneddwr Cristnogol hwn*."

[Fe gofiwn i TW ei hun barhau a'i wasanaeth fel diacon ym Methlehem hyd ei farwolaeth yn 1999.]

Terfynwyd y gwasanaeth angladdol yn y capel trwy weddi gan y Parchedig Ddr Elfed Lewis. Gwasanaethwyd ar lan y bedd gan gyfaill i R G Berry, y Parch Wilfred Lewis, Ficer y Plwyf.

[Syndod oedd sylwi yn y fersiwn brint o "Y Bywgraffiadur Cymreig 1941 – 1950", ac yn y fersiwn ar-lein cyfredol, y cyfeiriad at R G Berry yn cael galwad *"... o* ***Jerusalem****, Gwaelod-y-garth, Sir Forgannwg..."* – oes modd cywiro'r camwri yma tybed?]

Bu'n rhaid disgwyl ychydig, hyd at 1947, cyn i'r Parchedig Gwilym Morris, Penydarren, (1910 – 1988) gael ei sefydlu'n weinidog ym Methlehem.

Dyma beth o'r hanes a groniclwyd (yn ddienw) am ei alw:-

"*Daw neges i'n sirioli ar ddechrau blwyddyn fod yr hen eglwys enwog hon wedi estyn galwad i'r Parch Gwilym Morris, Penydarrenn ac y mae yntau wedi derbyn.*

*Fel y gwyr pob Cymro a Chymraes, dyma faes bugeiliol y diweddar annwyl Barch. R G Berry M.A. am yn agos i hanner can mlynedd. Anodd meddwl am unrhyw gyfuniad hapusach rhwng Gweinidog ac Eglwys am gyfnod mor faith. Bu yma "gwlwm cariad cywir a pherffaith" ar hyd y blynyddoedd a gellir yn haws dychmygu y golled ddifrifol i'r eglwys a'r cylch pan fu farw Mr Berry ddwy flynedd yn ol. Collodd yr eglwys hon tua'r un adeg, rai o'i haelodau a'u swyddogion mwyaf blaenllaw. Cyfeiriwn at y diweddar Mr E.J Phillips, y dramodydd enwog ac arweinydd y gân am ymhell dros hanner can mlynedd…*

*Hyfryd yw clywed bod ysbryd mor siriol a gobeithiol yn ffynnu yma a bod yr eglwys wedi llwyddo i ddenu un o weinidogion mwyaf addawol yr enwad i'n bugeiliol. Un o blant Hirwau yw y Parchedig Gwilym Morris. Wedi "ysgolia" yn yr Ysgol Elfennol ac yn Ysgol Uwchraddol Aberdar, aeth i Goleg Myrddin a'r Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin. Ordeiniwyd ef yn weinidog ym Mhisga a Phantycrugiau yn Hydref 1935. Wedi treulio pum mlynedd yno yn fawr ei barch yn yr ardal, derbyniodd alwad i Horeb, Penydarren lle y mae hyd yn awr yn gweinidogaethu gyda llwyddiant arbennig. Ar wahan i bregethu - ac yn ol ei dystiolaeth ei hun – yn gwbl is-raddol daw eisteddfota – ond gwyddom mai fel gweinidog da i Iesu Grist y sonir amdano yn y ddau gylch y mae wedi bod ynddynt…*

*Wrth llongyfarch a dymuno'n dda felly i'r Eglwys a'r Parch Gwilym Morris, erfynniwn fendith gyfoethog y Nef ar yr uniad a llwyddiant mawr ar waith y Deyrnas yn y cyfnod newydd.*"

'Roedd y Parchedig Gwilym Morris – "…(yn) *fardd a llenor adnabyddus ac yn bregethwr gwell na'r cyffredin ei hun…*" yn ol Huw Ethall yng Nghofiant R G Berry.

Ychydig flynyddoedd cyn dechrau ei weinidogaeth ym Methlehem, daeth yn agos iawn at gipio coron Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llandybie, 1944, am bryddest ar y testun "Yr Aradr" (ffugenw: *Bardd y Gweunydd*). Un arall a chysylltiad (anuniongyrchol) a chapel Bethlehem oedd yn fuddugol bryd hynny, sef J M Edwards, Y Barri, tad y diweddar Emyr Edwards!

Bu'n llwyddianus ar gyfansoddi soned i "Y Bwa" yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Y Bala yn 1967, gan ddefnyddio'r ffugenw "Eglwys Ilan" bryd hynny i ganu i hen bont enwog Pont y Pridd.

Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn 1947, a bu'n gwasanaethu yma hyd at 1968.

Wedi ymadawiad y Parchedig Gwilym Morris bu'r eglwys heb weinidog tan 1974.

(Bu'r Parchedig Ifor Rees, a oedd yn aelod ym Methlehem, yn gwasanaethu fel "gweinidog llanw" yn y cyfamser.)

Pryd hynny y daeth y Parchedig Rhys Tudur yn rhan o hanes Bethlehem.

Daeth llythyr oddiwrth y Parchedig Gwilym Morris iddo ym mis Chwefror 1974, yn cynnig cynghorion iddo fel y gweinidog newydd:-

"*Clywais y newyddion da gan ein cyfaill Denzil John yr wythnos diwethaf…*

*Y mae'n hyfrydwch mawr i mi gael eich cyfarch fel gweinidog etholedig Bethlehem, Gwaelod-y-garth..*

*Y tu ol i'r tŷ y mae aceri meithion o goed o bob math, ac os tân glo fydd yn gwresogi eich aelwyd, awgrymaf i chwi brynu llaw lif a'r dannedd yn llydan a miniog oherwydd wedi storm fe rydd y goedwig ei chymwynas…*

*Mae yno adar o bob rhywogaeth, a gwae pob cysgadur, oherwydd y mae côr y wawr yn ei anterth yn ei dymor..*

*Ond y mwynhad pennaf a gefais yng Ngwaelod-y-garth oedd pregethu'r Efengyl a gallaf dystio na chewch yn unman wrandawiad mwy astud a chynulleidfa mor werthfawrogol. A boed hyn yn brofiad i chwithau drwy gydol eich gweinidogaeth yno.*"

--oooOOOooo---

Ond unwaith yn rhagor, gwell tewi am y tro, rhag eich gorlwytho â hynt a helynt y "Bethlehem 150 mlwydd oed".

Cewch wybod a fu i Rhys Tudur dderbyn cyngor y Parchedig Gwilym Morris, a mentro prynu llif "llydan a miniog" yn rhifyn mis Medi o Tafod Elái!



Plant yr Ysgol Sul yn ystod "Oedfa Ddathlu'r Ysgol Sul" 18fed o Fehefin 2023

**Holl Hwyl yr Haf gyda'r Mentrau**

Mae'r haf wedi cyrraedd a chriw Menter Caerdydd yn prysur baratoi ar gyfer Tafwyl. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi ar gaeau Cooper ar benwythnos 15 a 16 Gorffennaf. Dewch i wrando ar y bandiau a'r sgyrsiau, crwydro'r stondinau a dathlu bywyd Cymraeg y brifddinas. Rydym yn dal i chwilio am wirfoddolwyr felly os oes gennych ychydig o oriau i sbario, cysylltwch! Fe gewch chi lawer o hwyl – a chrys-T a thocyn bwyd wrth gwrs!

Bydd digon o fwrlwm yn yr ŵyl Ffrinj hefyd, gan gynnwys Dragwyl yng nghwmni Connie Orff a'i ffrindiau yng Nghanolfan y Mileniwm. Cofiwch wisgo'n 'glam!'

Dyma flas i chi o weddill ein harlwy dros yr haf:

**Taith Natur Tafwyl (prynhawn Sul, 9 Gorffennaf)**

Dewch am dro i ddysgu mwy am fyd natur yn y brifddinas yng nghwmni arbenigwyr o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a Ffrindiau Fferm y Fforest. Mae'r daith yn rhad ac am ddim ac yn addas i oedolion a phlant dros 8 oed. Byddwn yn crwydro ar lan yr afon ac ar hyd y llwybrau cyhoeddus yn ardal Fferm y Fforest i weld rhai o ryfeddodau natur Caerdydd.

**Parti yn y Parc (bore Llun, 10 Gorffennaf, Parc y Rhath)**

Fel rhan o Ffrinj Tafwyl, byddwn yn cynnal 'Parti yn y Parc' i blant bach a'u teuluoedd yng nghwmni Siani Sionc. Bydd cyfle i ganu a dawnsio a mwynhau picnic yng nghwmni ffrindiau. Croesi bysedd am dywydd braf!

**Gweithgareddau awyr agored**

Er bod ein taith ystlumod yn Sain Ffagan bellach yn llawn, bydd digon o gyfle i gerdded a sgwrsio dros yr haf. Bydd criw 'Cerdded a Chlonc' yn cwrdd ym Mharc Bute, fore Iau, 6 Gorffennaf, ac wedi hoe fach ym mis Awst, byddwn ni 'nôl ym Mharc y Rhath ar fore Iau cyntaf mis Medi.

Parc Gwledig Cosmeston ym Mhenarth fydd y lleoliad ar gyfer ein taith gerdded ar nos Fawrth, 22 Awst. Dewch am dro hamddenol o gwmpas y parc a'r llyn!

**Y Cwis Mawr: Rownd Caerdydd (nos Iau, 6 Gorffennaf, Institiwt Llandaf)**

Beth am ymuno â ni yn Institiwt Llandaf ar gyfer Rownd Caerdydd o'r Cwis Mawr? Dyma gwis cenedlaethol a drefnir gyda chymorth Mentrau Iaith Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Y syniad yw dod â siaradwyr newydd a rhugl ynghyd i fwynhau noson o gystadlu hwyliog. Bydd digon o chwerthin yng nghwmni'r cwis-feistr profiadol, Aled Wyn Phillips, a chyfle i'r tîm buddugol fynd trwyddo i'r rownd derfynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ewch i'r wefan i gofrestru eich tîm!

**Gweithgareddau gwyliau i blant cynradd**

Rydym yn edrych ymlaen at gynnal ein sesiynau chwarae agored rhad ac am ddim, Bwrlwm, mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas Caerdydd a Bro Morgannwg. Cewch hyd i'r manylion llawn ar wefannau'r Mentrau wrth i'r gwyliau ysgol agosáu. Bydd y Cynllun Gofal hefyd yn dychwelyd i Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd, gyda'r ddarpariaeth yn dechrau ar 7 Awst. Byddwn hefyd yn cynnal 'Gweithdy Gwau' yn Hyb Treganna ar 30 Awst i blant rhwng 8 a 12 oed. Rydym yn eu hannog i ddod ag oedolyn gyda nhw i fwynhau gweithgaredd rhyng-genedlaethol. Mae'r niferoedd yn gyfyngedig felly cofiwch gofrestru'n gynnar!

Bydd Sgwrs y Mis, Mewn Tiwn, Amser Stori a nifer o'n sesiynau rheolaidd eraill yn cymryd saib dros yr haf ac yn dychwelyd ym mis Medi.

Os hoffech fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau ar gyfer plant neu oedolion, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm. Neu dewch draw i'n gweld ni ar ein stondin yn Tafwyl; edrychwn ymlaen at gael sgwrs!

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**
**Facebook: @m.caerdydd**
**Instagram: @mentercaerdydd**
**E-bost: post@mentercaerdydd.cymru**
**Ffôn: 029 2068 9888**






## Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

### Gwobrau YEPS

Roedd hi'n bleser cael bod yn rhan o Ddigwyddiad Dathlu YEPS ar y 15fed o Fehefin. Cynhaliwyd y noson yn Theatr y Colisëwm, Aberdâr. Roedd Clwb Creadigol ac Ieuenctid y Fenter wedi'i henwebu am wobr o dan y categori celfyddydau, diwylliant a chwaraeon. Llongyfarchiadau i Baglan Sports Project a diolch i YEPS am yr enwebiad!

### Ras yr Iaith

Ar yr 22ain o Fehefin am 10yb bu miloedd o blant ar draws Cymru yn rhedeg Ras yr Iaith i fwynhau a dathlu'r Gymraeg.

Nid ras arferol yw Ras yr Iaith, ond ras i fwynhau'r Gymraeg gyda ffrindiau. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o'r iaith, dangos balchder ati a dangos i'r byd fod cefnogaeth i'r Gymraeg ar lawr gwlad.

Am y tro cyntaf, cynhaliwyd cymal o'r ras yn Rhondda Cynon Taf. Cerddodd a rhedodd plant o Ysgol Llwyncelyn ac Evan James o'r ysgol i barc Barry Sidings lle cafodd y plant y cyfle i wrando ar y band Ble?, cael gwawdlun gan Siôn Tomos Owen a chymryd rhan mewn sesiwn animeiddio cyn troi nôl am yr ysgol. Diolch i Heledd Fychan am agor y digwyddiad ac i ddisgyblion Ysgol Cwm Rhondda am helpu stiwardio. Roedd hi'n fore bendigedig!



### Cyngerdd RAFT

Nos Iau Mehefin 22ain, cynhaliwyd cyngerdd Gymraeg cyntaf Gŵyl RAFT (Rhondda Arts Festival Treorchy) yng Nghapel Hermon, Treorci am 7yh. Roedd y Fenter yn falch iawn i weithio mewn partneriaeth gyda'r ŵyl a threfnu'r digwyddiad. Gwledd o Gerdd a Chân oedd teitl y noson, a dyna'n union beth gawsom ni! Cafwyd perfformiadau arbennig gan Gôr Meibion Treorci, Côr Cwm Rhondda, Ysgol Gyfun Cwm Rhondda ac Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio mwy gyda'r ŵyl yn y dyfodol!

### Picnic y Tedis

Roeddem yn falch gallu cyd-weithio gyda'n partneriaid Cymraeg lleol a chynnal stondin yn nigwyddiad Picnic y Tedis ym Mharc Ynysangharad ar y 23ain o Fehefin. Roedd hi'n ddiwrnod prysur yn y parc. Diolch i bawb ddaeth i ymweld â'r stondin a chymryd rhan yn y gweithgareddau.



### Gig Brwydr y Bandiau

Mewn partneriaeth gyda Cherdd Gymunedol Cymru a Chymdeithas Rhieni Llanhari, fe gynhalion ni weithdy i fandiau ifanc o fewn yr ysgol gyda Mei Gwynedd ac Eadyth, ac yna noson Brwydr y Bandiau gyda'r band Wigwam yn perfformio a beirniadu yng Nghlwb Rygbi Llantrisant ar nos Wener Mehefin 23ain.

O ran y Fenter, prosiect peilot oedd hwn gan ein bod ni'n trafod gyda Cherdd Gymunedol Cymru, y Gwasanaeth Cerdd a Chlwb y Bont i geisio datblygu Ysgol Roc Cymraeg o fewn y Sir.



### Cyhoeddi'r Eisteddfod yn Aberdâr

Roedd hi'n ddiwrnod i'w gofio yn Aberdâr ar y 24ain o Fehefin. Roedd hi'n bleser cael bod yn rhan o'r bwrlwm. Mae'n swyddogol, mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Rhondda Cynon Taf!



### Murlun Mawr Yr Hen Lyfrgell Porth

Mae lolfa goffi Yr Hen Lyfrgell Porth, cartref swyddfa Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, wedi cael cefnogaeth ariannol gan The Ashley Foundation i greu Murlun Mawr ar ochr yr adeilad i groesawu pobl wrth iddynt ddod i mewn i'r Porth. Y cyflwynydd, darlunydd ac ysgrifennwr, Siôn Tomos Owen, sy'n creu'r murlun ac ar ôl cael mewnbwn y gymuned mewn gweithdai arbennig llynedd, mae'r gwaith cyffrous o baentio'r murlun wedi cychwyn!




### Swyddi Clybiau Carco

Rydym yn edrych am bobl brwdfrydig i ymuno â'n tîm clybiau Carco. Mae gennym glybiau ar draws y sir, pob un ohonynt yn debyg. Maent yn cael eu rhedeg trwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddarparu gweithgareddau Cymraeg i'r plant sy'n mynychu. Rydym yn cyflogi hyd at 40 aelod o staff bob wythnos gan roi'r cyfle iddynt weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddatblygu gyrfa Gymraeg.

Rydym yn chwilio am:

Arweinydd/Person â Gofal Clwb Carco
Dirprwy Clwb Carco
Cynorthwyydd Craidd Clwb Carco
Cynorthwyydd Clwb Carco

Am ragor o fanylion cysylltwch â lisa@menteriaith.cymru

Am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!**

Gallwch chi danysgrifio i'n rhestr e-bost yma: www.menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe

**Facebook:** @MenterIaithRhCT
**Twitter:** @MenterIaithRhCT
**Instagram:** @menteriaithrhct
**Gwefan:** www.menteriaith.cymru
**E-bost:** post@menteriaith.cymru
**Ffôn:** 01443 407570



# Bethlehem, Gwaelod-y-garth
## Dathliadau 150 mlwydd oed yr adeilad presennol Mehefin 2023



Plant yr Ysgol Sul a rhai o’r mamau - ar Sul 18fed o Fehefin 2023.



Y Parchedig R Alun Evans a Delwyn Sion yn barod i rannu Cacen y Dathlu, yng nghwmni’r gogyddes, Marian Evans ar Sul y 25ain o Fehefin 2023.

Eilir Owen Griffiths yn arwain Cymanfa’r Dathlu ar bnawn Sul yr 11eg o Fehefin 2023





Y gynulleidfa yn gwrando’n astud ar derfyn mis o ddathlu ar Sul y 25ain o Fehefin 2023.




Cael cip ar yr Arddangosfa Ddathlu ar Sul y 4ydd o Fehefin 2023



Yr Artist (Anthony Evans) a’r Bardd (Rhys Powys) yn cyflwyno Llun y Dathlu i ofal yr aelodau ar ddiwedd mis o ddathlu ym Mehefin 2023.

# Ysgol Evan James

**Wythnos Iach a Heini**
Cawsom wythnos fendigedig ym mis Mehefin pan oeddem yn brysur iawn yn cadw'n iach a heini. Cawsom weithdai golff, gweithdai cadw'n ddiogel yn y dŵr, cyfle i fynd ar ein beiciau a'n sgwteri, cystadleuaeth cic o'r smotyn yn ogystal â choginio bwydydd iachus. Diolch i'r Cyngor Iechyd a Lles am drefnu'r wythnos.



**Timau chwaraeon yr ysgol**
Mae timau criced a phêl-rwyd yr ysgol wedi bod yn cystadlu'n frwd dros yr wythnosau diwethaf. Aeth y tîm pêl-rwyd i Ysgol Garth Olwg i chwarae yn erbyn ysgolion y clwstwr. Mwynheuodd y disgyblion gystadlu a chymdeithasu. Aeth ein tîm criced i gystadlu ym Mharc Ynysangharad yn erbyn ysgolion Pontypridd gan ennill pob gêm. Gwych blant.



**Lansio map eco**
Aeth disgyblion o Ddosbarth Bendigeidfran i Barc Ynysangharad i lansio'r map eco a grëwyd ganddynt ar y cyd â'r artist Siôn Tomos Owen. Daeth rhieni a staff o'r ganolfan YMA i wrando ar y plant yn trafod y map a'n darllen y farddoniaeth a gyfansoddwyd ganddynt fel rhan o'r prosiect. Bore i'w gofio!



**Gwasanaethau Dosbarth**
Mae disgyblion Cwm Clyd (Cam Cynnydd 2) wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer eu gwasanaethau dosbarth. Erbyn hyn, mae pob dosbarth wedi perfformio'u gwasanaeth o flaen eu rhieni cyn cael paned a chlonc.

**Dathliadau'r Ŵyl Gyhoeddi**
Cawsom wythnos brysur wrth i ni gyhoeddi y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Rhondda Cynon Taf y flwyddyn nesaf. Aeth Blwyddyn 5 a 6 i Barry Sidings i gymryd rhan yn ras yr iaith ac yna ar ddydd Sadwrn, Mehefin 24ain, daeth disgyblion a staff ynghyd i orymdeithio yn Aberdâr fel rhan o'r Ŵyl Gyhoeddi. Roedd baner newydd sbon gennym a grëwyd gan Mrs Martin a disgyblion y Clwb Brecwast. Yn ystod yr ŵyl, gwelsom Gwenno a Mari yn chwarae rhannau allweddol yn y dathlu; Gwenno yn nawns y blodau a Mari yn un o'r llawforynion.



# Hwyl gyda Martyn Geraint yng Nghylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton



Cafwyd digon o ganu a dawnsio a hwyl drwy gyfrwng y Gymraeg ("sy'n magic!") pan ymwelodd Martyn Geraint â Chylch Ti a Fi a Chylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton yn ddiweddar.

Roedd Martyn yn cymryd rhan mewn bore agored er mwyn hyrwyddo y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi sydd erbyn hyn yn dathlu blwyddyn ers iddynt agor eu drysau.

O fis Medi ymlaen bydd y Cylch Meithrin yn cynnig sesiwn estynedig o 9.15yb tan 12.15yp bob dydd Llun i ddydd Mercher yn ystod tymor yr ysgol. Cynhelir y Cylch Ti a Fi bob bore Gwener yn ystod tymor yr ysgol o 10 - 11.30yb yng Nghanolfan Gymunedol Cilfynydd ble y lleolir y Cylch Meithrin hefyd.

Mae'r pwyllgor gwaith yn ddiolchgar iawn i Gronfa Glyndŵr am gynnig grant o £500 tuag at gynnal y bore agored a phrynu adnoddau Cymraeg er mwyn sicrhau cynaladwyaeth y Cylch yn y tymor-hir. Elusen yw Gronfa Glyndŵr a sefydlwyd yn 1963 gan Trefor a Gwyneth Morgan i hyrwyddo addysg Gymraeg a chynnig cymorth i rieni sydd eisiau i'w plant fwynhau manteision addysg ddwyieithog. Ei nod yw 'gwneud gwahaniaeth' a cheir fwy o wybodaeth ar eu gwefan
www.cronfaglyndwr.cymru.

Meddai Eurgain Haf, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton, "*Ein nod drwy sefydlu'r Cylch Meithrin a Ti a Fi oedd rhoi profiadau hwyliog drwy gyfrwng y Gymraeg i blant lleol yn ystod eu blynyddoedd cynnar allweddol. Mae'n hollbwysig ein bod ni yn gallu sicrhau cynaladwyaeth a ffyniant y ddarpariaeth yn yr hir-dymor ac mae derbyn arian Cronfa Glyndŵr wedi ein helpu i farchnata buddiannau'r Cylch ac annog mwy o rieni i gofrestru eu plant erbyn y tymor newydd ym mis Medi. Roedd y plant a'r rheini wrth eu bodd yn ymuno yn hwyl a sbri sioe Martyn Geraint a braf oedd clywed y Gymraeg yn atseinio o amgylch y neuadd.*"

Am fwy o wybodaeth am Cylch Meithrin Cilfynydd a Phont Norton a'r Cylch Ti a Fi ebostiwch cylchmeithrin-cilfynydd@outlook.com neu dilynwch ein tudalen facebook @cylchcilfynydd.

# Ysgol Creigiau

**Eisteddfod yr Urdd**

Ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher yn ystod hanner tymor, cystadlodd nifer o ddisgyblion yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin. Perfformiodd pob un yn wych. Roedd Raffi, Class 2, yn gyntaf ar y Llefaru Blwyddyn 2 ac iau i ddysgwyr, daeth y Grŵp Llefaru i Ddysgwyr yn ail a'r Grŵp Perfformiad Theatrig i Ddysgwyr yn ail hefyd. Perfformiodd Elsie, Class 6, ac Eddie, Class 4, yn wych yn eu cystadlaethau unigol. Rydym yn hynod falch o'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu ac yn cynrychioli'r ysgol mor wych. Diolch i'r staff am hyfforddi'r disgyblion a diolch o galon i'r holl rieni a theuluoedd am eu cefnogaeth.



Grŵp Llefaru



Perfformiad Theatrig i Ddysgwyr



Raffi - enillydd llefaru dan 8 i ddysgwyr

**Diwrnod Hwyl Rygbi**

Mwynheuodd disgyblion Dosbarth 1 a Class 1 Ddiwrnod Hwyl Rygbi yng Nghlwb Rygbi Pentyrch. Trefnwyd y digwyddiad gan Mac Williams, ein Swyddog Hwb URC a hyfforddwyr Clwb Rygbi Pentyrch. Diolch am y profiad a'r hwyl!



**Gwobr Arian Ysgolion Sy'n Parchu Hawliau**

Fore Iau, 15fed Mehefin, cyfarfu Stuart Whiffin, Cynghorydd Proffesiynol Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, â chwech aelod o staff a chynrychiolwyr Blwyddyn 6 o'n gwahanol bwyllgorau ysgol i asesu ein gwaith tuag at y Wobr Arian Ysgolion sy'n Parchu Hawliau. Mae'n bleser cyhoeddi ein bod wedi ennill y Wobr Arian. Diolch i Ms Griffin am arwain ar Hawliau Plant yn yr ysgol, ac i'n disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr am eu holl waith caled a'u cefnogaeth i gyflawni'r wobr hon. Ardderchog Bawb!



Aelodau Grwp Hawliau'r Plant

**Techniquest**

Ymwelodd disgyblion y Derbyn a Reception â Techniquest. Roedd pawb wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithdy gwyddonol. Roedd eu hymddygiad a'u brwdfrydedd yn arbennig drwy gydol y dydd.

**Mabolgampau**

Cynhalion ni ein Mabolgampau ar gae'r ysgol ddydd Gwener, 16eg Mehefin. Roedd y disgyblion yn gyffrous ac yn awyddus i gymryd rhan yn y gwahanol gystadlaethau. Cawsom brynhawn gwych ac roedd pawb wrth eu boddau. Gwerthodd y Grŵp SNAG pob un o'u potiau mefus blasus. Einion oedd y llys buddugol ar ddiwedd y prynhawn. Diolch i bawb am ddod i gefnogi a helpu gwneud y diwrnod yn un llwyddiannus



Capteiniaid y Llysoedd



**Hyfforddiant Ail-ddechrau'r Galon**

Ymwelodd Paul a Michelle o Academi Hyfforddi Ajuda, â'r ysgol i gyflwyno hyfforddiant Ail-ddechrau'r Galon ar gyfer ein disgyblion Blwyddyn 6. Cawsant sesiwn 2 awr yn dysgu sut i wneud CPR. Roedd pawb yn cytuno eu bod wedi dysgu sgiliau achub bywyd gwerthfawr yn ystod y sesiwn. Diolch Paul a Michelle.

**Cystadleuaeth Ddringo Gemau Stryd**

Ddydd Gwener, 16eg Mehefin, bu Ella, Dosbarth 6, yn cystadlu yng Ngemau Stryd yr Urdd ym Mae Caerdydd. Roedd yn ddigwyddiad hwyliog a llwyddiannus iawn gyda dros 80 o blant yn cystadlu. Daeth Ella'n 3ydd yng nghategori merched dan 12. Am gamp Ella!



**Wythnos Agor Eich Llygaid**

Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi cael y cyfle i ymuno gydag amrywiaeth o weithdai fel rhan o Wythnos Agor Eich Llygaid. Dyluniwyd Wythnos Agor Eich Llygaid i danio ac ysbrydoli diddordeb disgyblion mewn ystod eang o swyddi. Ymunodd ein disgyblion Blwyddyn 5 a 6 â sesiynau dan arweiniad Space Forge - cwmni o Gaerdydd sy'n arbenigo mewn gwneud lloerennau; Canolfan Mileniwm Cymru; Bengo Media - cwmni sy'n arbenigo mewn podlediadau a rhaglenni radio a hefyd Googleminds - cwmni sy'n edrych ar VR yn y GIG. Roedd pawb wedi mwynhau'r sesiynau yn fawr.

**Swyddog Hwb Rygbi**

Bu Cobi Flowers, Swyddog Rygbi URC Ysgol Plasmawr, yn ymweld â disgyblion Dosbarth 5 a Dosbarth 6 yn ddiweddar i weithio ar sgiliau rygbi.

**Boom Plant**

Fore Gwener, 23ain Mehefin, ymwelodd Boom Plant, cwmni cynhyrchu ym Mae Caerdydd, â'r ysgol i ffilmio sioe o'r enw 'Chwarter Call'. Ymunodd disgyblion y Dosbarth Derbyn, Dosbarth 1 a Dosbarth 2 â nhw yn neuadd yr ysgol i ffilmio 'Y Band'. Fe wnaeth y disgyblion fwynhau'r profiad yn fawr!

**Dangoswch Gerdyn Coch i Hiliaeth**

Ddydd Mawrth, 27ain Mehefin, cyflwynodd Roxanne Beckles, Gweithiwr Addysg gyda Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth, ddau weithdy ardderchog i ddisgyblion Dosbarth 5 a Class 5. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r gweithdai addysgiadol yn fawr. Mae Persimmon Homes wedi ariannu gweithdai ar gyfer sawl ysgol yn ardal De Cymru, gan gynnwys ein hysgol ni. Ymwelodd Persimmon â'r ysgol ar ddiwedd y dydd i drosglwyddo siec o £6000 i Ddangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth.



Parhad tudalen 19 >

# Ysgol Dolau

Roedd ein twrnamaint pêl-droed cyntaf y flwyddyn, a gynhaliwyd yn Ysgol Dolau yn lwyddiant. Ymunodd ein ffrindiau o Ysgolion Tonysguboriau, Gwaunmiskin a Heol-y-Celyn â ni am brynhawn llawn pêl-droed ffantastig - mae ambell seren ar y gweill! Diolch yn fawr iawn i'n Cyngor Chwaraeon am eich holl gymorth.



Cynhaliwyd diwrnodau mabolgampau llwyddiannus iawn i blant y Cyfnod Sylfaen a phlant Cyfnod Allweddol 2. Ymdrech arbennig gan bawb!



Roedd disgyblion yn yr adran iau wedi mwynhau'r gweithdai drymio Affricanaidd a gyflwynwyd gan UpBeat. Byddwn yn trefnu ymweliadau i rieni weld eu disgyblion yn perfformio cyn diwedd y tymor.



**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i ddawnswyr Dolau - perfformiadau gwych yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
Rydym yn falch iawn ohonoch chi gyd!







Mae ein Tîm Lles wedi bod yn brysur yn tacluso / addurno ein Hardal Les! Rydym hefyd wedi cyflwyno ardaloedd dosbarth, lle bydd disgybl gwahanol bob dydd yn gofalu am y planhigion yn eu hardal. Rydym wedi croesawu disgyblion Blwyddyn 2 yr hanner tymor yma yn y Clwb Lles. Rydyn ni wedi treulio llawer o amser yn yr awyr agored ac yn y goedwig er mwyn bod yn greadigol! Rydym hefyd wedi cynnal ein Mabolgampau ein hunain ac wedi gwneud Lemonêd blasus i'n hoeri!



Ymweliad yr RNLI i drafod pwysigrwydd bod yn ddiogel ar lan y môr gyda Blwyddyn 1 a 2. Eu thema hanner tymor yw Sŵn y Tonnau.

## Ysgol Creigiau (Parhad)

**YMWELWYR O LESOTHO**
Brynhawn Mawrth, 27ain Mehefin, daeth ymwelwyr arbennig o Lesotho i'r ysgol. Bu disgyblion Dosbarth 2 yn eu diddanu gyda'u canu hyfryd yn neuadd yr ysgol. Cawsant daith o amgylch yr ysgol a chyfle i siarad â rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6. Roedden nhw'n ymweld â Chymru yn dilyn ymweliad cynharach eleni i Lesotho gan staff a disgyblion Ysgol Plasmawr.



Ymwelwyr o Lesotho gyda disgyblion Dosbarth 2



# Ysgol Llanhari

**Ymweliad rhieni**
Croesawyd rhieni'r adran gynradd i fewn i'r dosbarthiadau fel bod y plant yn gallu dangos pa fath o waith maent wedi gwneud. Roedd y bwrlwm oedd yn yr adran gynradd yn amlwg ar y diwrnod gyda'r disgyblion yn gwenu o glust i glust wrth ddangos yr holl waith maent yn falch iawn ohono i'w rhieni. Diolch i bawb am gefnogi.



**Chwaraeon**
Mae llwyth o gystadlu wedi digwydd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 8 a 9 a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth athletau Cymoedd Morgannwg yn ddiweddar. Rydyn ni mor falch o'r disgyblion o flwyddyn 4 a fu'n cystadlu yn nhwrnament criced yr Urdd yn ddiweddar a'u bod nhw wedi dod yn fuddugol! Ymlaen at y rownd nesaf!






**Ffrindiau Llanhari**
Diolch yn fawr iawn i Ffrindiau Llanhari am eu cefnogaeth am noddi'r gemau iard newydd ar gyfer yr adran gynradd. Mae'r disgyblion wrth eu boddau yn eu



defnyddio. Diolch hefyd am drefnu Siop Sul y Tadau yn ddiweddar, mae nifer o bobl lwcus iawn wedi derbyn anrhegion.

**Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod yn Llanymddyfri yn ddiweddar. Braf gweld cymaint yn cystadlu, cymaint yn cefnogi ac wrth gwrs yr haul yn gwenu.







**Eisteddfod Genedlaethol 2024**
Roeddem ni'n falch iawn i gael bod yn rhan o orymdaith Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024 yn Aberdâr. Yn dilyn y broses o ymgeisio, derbyniwyd y newyddion cyffrous fod Ysgol Llanhari wedi ei dewis i noddi cystadleuaeth y Gadair yn yr Eisteddfod. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn barod.

**Bore Coffi Lles**
Diolch i bawb a fynychodd ein bore coffi lles a chynhwysiant. Braf oedd croesawu rieni ysgolion y clwstwr, athrawon arbenigol RhCT a staff yn yr ysgol yn mwynhau a thrafod dros baned.

**AstroCymru**
Diolch i Emma a Sarah o AstroCymru am weithdy arbennig i flwyddyn 5, 'Sun Space Art' sy'n cyd-fynd gyda'r gwaith Gwyddoniaeth maent wedi gwneud eleni. Cynhyrchwyd gwaith o safon uchel iawn, da iawn bawb.



**Diwrnod Trosglwyddo**
Cafwyd diwrnod trosglwyddo llwyddiannus ar gyfer y disgyblion byddwn ni'n croesawu ym mlwyddyn 7. Roedd hi'n gyfle gwych i bob un i ymweld â'r ysgol, cwblhau amrywiaeth o weithgareddau yn yr adrannau gwahanol, cyfarfod yr athrawon ac wrth gwrs cyfle gwych i gymdeithasu gyda'r disgyblion o ysgolion eraill. Diolch yn fawr i Ysgolion Dolau, Llantrisant a Thonyrefail a'n disgyblion blwyddyn 6 ni yn Ysgol Llanhari.



**Bore o hwyl Meithrin**
Cynhaliwyd bore o hwyl ar gyfer y disgyblion fydd yn ymuno gyda ni yn Ysgol Llanhari yn y meithrin ym mis Medi. Roedd hi'n gyfle arbennig i'r disgyblion a'r rhieni ymweld â'r dosbarth ac i gyfarfod yr athrawon. Roedd llawer o chwerthin i'w glywed yn dod o ddosbarth Dewi Draenog. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi cyn hir.



**Wythnos Bwyta'n Iach**
I ddathlu Wythnos Bwyta'n Iach, bu disgyblion yr adran gynradd yn brysur yn coginio yng nghegin yr adran uwchradd. Roedd bwydlen flasus tu hwnt ar gael yn ystod yr wythnos, 'kebab' ffrwythau, fajitas a chawl blasus!



**Mabolgampau**
Cafwyd diwrnod arbennig yn yr heulwen gyda mabolgampau'r adran gynradd. Roedd hi'n ddiwrnod prysur ond roedd pawb wedi mwynhau a phob un yn trio'u gorau glas. Da iawn i bob un a llongyfarchiadau i lys Aran am fod yn fuddugol.



